# Agenda - Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Lleoliad:

**Hybrid: Ystafell Bwyllgora 5 a Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Gwener, 26 Ebrill 2024

Amser: 10.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Meriel Singleton**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

CraffuPW@senedd.cymru

## Cyfarfod cyn y prif gyfarfod

(9.45 - 10.00)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Plant â phrofiad o fod mewn gofal

(10.00 - 11.30) (Tudalennau 1 - 54)

Vaughan Gething AS, Prif Weinidog Cymru.

Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr Galluogi Pobl, y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio.

Taryn Stephens, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwelliant.

## 3 Craffu cyffredinol

(11.30 - 12.30) (Tudalennau 55 - 87)

Vaughan Gething MS, Prif Weinidog Cymru.

Rachel Garside-Jones, Cyfarwyddwr y Cytundeb Cydweithio.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

## 5 Trafod y sesiynau tystiolaeth blaenorol

(Tudalennau 88 - 93)

## 6 Trafod cyfarfodydd y dyfodol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

VFCC
VOICES FROM CARE CYMRU

# Uwchgynhadledd Diwygio Radical

## DATGANIAD

llyw.cymru

# Cynnwys


1 Rhagair

2 Datganiadau Cefndir

4 Y Weledigaeth

9 Yr Ymrwymiad




OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47111, ISBN digidol 978-1-80535-946-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair

**Yn y 22 mlynedd ers datganoli, mae un Llywodraeth Cymru ar ôl y llall wedi rhoi blaenoriaeth i hawliau ac anghenion plant a phobl ifanc ac fe gafwyd llwyddiannau o bwys. Yn 2001, mewn ymateb i Adroddiad Waterhouse, sefydlwyd swyddfa'r Comisiynydd Plant; y cyntaf yn y Deyrnas Unedig. Yn 2011, pasiwyd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), a oedd yn ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhannol yng nghyfraith Cymru. Yn 2020, pasiwyd Deddf Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol (Cymru), gan roi i blant yr un amddiffyniad rhag trais dan y gyfraith yn ein cenedl.**

Fel cenedl, gall Cymru ymfalchïo yn y llwyddiannau hyn ac eraill, ond mae llawer mwy i'w wneud o hyd, er mwyn i'n cymuned ofal allu ymgyrraedd at ei llawn botensial, a'i gyflawni.

Heddiw, fe wnaeth Gweinidogion Cymru gwrdd â Llysgenhadon Ifanc, sydd yma heddiw i gynrychioli llais cenedlaethol ein cymuned o blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae'r Uwchgynhadledd hon heddiw wedi trafod y camau sydd eu hangen i hyrwyddo hawliau – seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn – a lles plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.



# Datganiadau Cefndir

## Llywodraeth Cymru

Yn ein Cynllun Plant a Phobl Ifanc, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ein huchelgais:

> *'Rydym am i Gymru fod yn lle gwych i blant a phobl ifanc dyfu i fyny, byw a gweithio ynddo, nawr ac yn y dyfodol.'*

**Aiff y Cynllun yn ei flaen i ddweud:**

'Credwn fod gan bob un o'n plant a'n pobl ifanc yr hawl i wneud y canlynol:

- cael y dechrau gorau mewn bywyd
- cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu a'u mwynhau, a chael yr addysg orau bosibl i feithrin eu gwybodaeth a'u creadigrwydd a'u galluogi i wireddu eu potensial
- mwynhau ffyrdd iach o fyw a chael eu diogelu rhag niwed, camdriniaeth, esgeulustod a gwahaniaethu
- gallu chwarae a chael hwyl
- cael eu trin â pharch a chael rhywun i wrando arnynt
- byw mewn cartref a chymuned sy'n lle braf i dyfu i fyny ynddo
- cael y cymorth ariannol a materol sydd ei angen arnynt.'

Aiff y Cynllun yn ei flaen i nodi rhai o'r camau amrywiol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd, gydag eraill, i wneud yr addewid hwnnw'n ffaith a gwireddu'r hawliau hynny.

Mae arnom ddyletswydd gofal arbennig i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal er mwyn sicrhau bod eu hawliau'n cael eu gwireddu'n llawn. Mae hyn yn faes pwysig iawn i ni.

Gwyddom fod llawer o blant a phobl ifanc yn cael profiadau cadarnhaol yn y system ofal a'u bod yn gwneud yn dda mewn bywyd. Maen nhw'n ffynnu ac yn tyfu, gyda gofal a chefnogaeth, ac yn mynd ymlaen i gyflawni eu llawn botensial. Gwelsom newidiadau cadarnhaol dros y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, mae llawer mwy o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal bellach yn mynd i'r brifysgol nag erioed o'r blaen.  Rydym yn falch o lwyddiannau a gwytnwch pobl ifanc, ac rydym yn ddiolchgar i bawb sy'n gofalu amdanynt ac yn eu cefnogi. Ond mae llawer gormod o blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal sydd ddim yn cael gwireddu eu hawliau. Mae llawer gormod ohonynt yn ddigartref. Mae canran y bobl ifanc â phrofiad o ofal sy'n gadael yr ysgol gyda phum pwnc TGAU da neu fwy yn dal yn rhy isel.

Mae plant a phobl ifanc â phrofiad o ofal yn dioddef stigma ac, yn aml, nid ydynt yn derbyn y gefnogaeth mae arnynt ei hangen i oresgyn y trawma a ddaeth i'w rhan.

I ni, Llywodraeth Cymru, mae hyn yn annerbyniol. Yn ein Rhaglen Lywodraethu - y ddogfen lle'r ydym yn gosod ein haddewidion i bobl Cymru – mae nifer o addewidion i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal a'u teuluoedd rydym wedi dechrau eu cyflawni. Er enghraifft, rydym wedi cyflwyno Taliad Incwm Sylfaenol i'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn rhoi gwell cychwyn iddynt yn eu bywydau annibynnol, ac rydym wedi dechrau'r broses o atal cwmnïau rhag gwneud elw mawr o ofalu am blant a phobl ifanc. Ond gwyddom nad yw hyn yn ddigon.

Gwnaethom addewidion mwy yn ein Rhaglen Lywodraethu. Rydym wedi addo:

> *'ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal.'*

Mae'r Uwchgynhadledd hon yn gam mawr ymlaen, o ran ystyried yr hyn y gallai diwygio gwasanaethau yn radical ei olygu i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

## Llysgenhadon Ifanc

Rydym ni, y Llysgenhadon Ifanc, wedi bod yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc eraill, sydd â phrofiad o ofal, i ymchwilio i ystyr diwygio radical. Fe wnaethom gychwyn gyda'r geiriadur. Mae dau ystyr i radical: trwyadl, cyflawn, hollol, llwyr; a chwyldroadol, blaengar, diwygiol. Mae diwygio'n golygu gwella, gwneud yn well, trwsio. Geiriau o bwys.

Rydyn ni'n falch fod Llywodraeth Cymru yn deall yr angen am ddiwygio radical. Bu rhai ohonom yn rhan o ymgynghori o'r blaen, a doedden ni ddim wastad yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnom ni ac yn gweithredu ar sail ein pryderon. Ond rydyn ni'n falch o'r gwaith a wnaethom eisoes gyda'r Llywodraeth hon yng Nghymru – er enghraifft, ynghylch datblygu'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol – ac rydyn ni'n credu bellach bod rhywun yn gwrando arnom ni. Buom yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc eraill sydd â phrofiad o ofal er mwyn deall eu profiadau nhw o'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd a beth sydd angen newid. Daethom i'r Uwchgynhadledd hon gyda'n syniadau am sut beth fyddai gwasanaethau wedi'u diwygio'n radical a fyddai ar gael i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a'u teuluoedd. Rydym wedi rhannu'r syniadau hyn, i helpu i greu gweledigaeth o sut beth fydd gwasanaethau wedi'u diwygio'n radical a beth fyddant yn ei gyflawni. Gweledigaeth y gallwn ni a Llywodraeth Cymru gytuno arni.



# Y Weledigaeth

## Llywodraeth Cymru

Rydyn ni wedi gwrando ar yr hyn ddywedodd y Llysgenhadon Ifanc wrthym am eu profiadau nhw a phrofiadau plant a phobl ifanc eraill sydd â phrofiad o ofal.

Clywsom eu syniadau am sut beth ddylai gwasanaethau wedi'u diwygio'n radical fod a beth ddylent ei roi i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Gyda'n gilydd, rydym wedi datblygu'r Weledigaeth hon, ac rydym yn ei chefnogi.

## Llysgenhadon Ifanc

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwrando ar ein profiadau a'n syniadau am Weledigaeth o sut beth fyddai gwasanaethau wedi'u diwygio'n radical a beth ddylent ei roi.

Rydym yn cefnogi'r Weledigaeth a nodir isod.

### Dyma rywfaint o'r hyn fydd yn wahanol:

- Byddwn yn siarad â'r holl blant a phobl ifanc y mae'r system gofal wedi effeithio arnynt a bydd rhywun yn gwrando arnynt ar bob cam. Bydd y bobl sy'n gwrando arnynt yn deall y gall fod yn anodd weithiau i fynegi eich barn neu ddweud yr holl wir. Byddant yn cefnogi plant a phobl ifanc, gan gynnwys plant bychain, i ddweud eu dweud. Pan na fydd modd cytuno i ddymuniadau plant a phobl ifanc ynghylch lle maen nhw eisiau byw a gyda phwy, oherwydd y bydd angen iddynt fyw yn rhywle arall er mwyn gallu ffynnu, bydd yr hyn sy'n digwydd a pham yn cael ei esbonio'n gywir iddynt.
- Ni chymerir yr un plentyn na pherson ifanc i ofal cyn gwneud popeth posib i helpu eu teulu i edrych ar eu hôl yn dda, oni bai bod argyfwng.
- Bydd gan deuluoedd y gallai eu plant gael eu rhoi mewn gofal eiriolwr annibynnol i'w helpu a'u cefnogi a gwneud yn siŵr bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Bydd gan blant a phobl ifanc yn y teulu eu heiriolwyr annibynnol eu hunain hefyd (gweler isod) i wneud yn siŵr bod eu lleisiau hwythau'n cael eu clywed.
- Pan gaiff plentyn neu berson ifanc ei roi mewn gofal, bydd gwasanaethau'n gweithio gyda'r teulu a'r plentyn neu'r person ifanc i wneud popeth posib i helpu'r teulu i ddod ynghyd eto, os oes modd helpu'r teulu i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc i ffynnu. Gwrandewir ar blant a phobl ifanc os byddant yn dweud nad ydynt eisiau mynd adref, ac ystyrir eu dymuniadau a'u teimladau. Pan fydd plant a phobl ifanc yn mynd adref, bydd gweithwyr proffesiynol yn bwrw golwg yn gyson i wneud yn siŵr bod popeth yn mynd yn iawn ac i helpu os bydd angen.
- Pan roddir plant a phobl ifanc mewn gofal, cânt eu cefnogi i gadw mewn cysylltiad â'u teulu genedigol os yw hyn yn bosib. Gwrandewir ar eu barn am gyswllt gyda'u teulu genedigol, a gweithredu ar hyn os oes modd. Ni fydd unrhyw bwysau yn cael eu rhoi ar unrhyw blentyn na pherson ifanc i gysylltu os nad ydynt eisiau hyn.
- Pan roddir plant a phobl ifanc mewn gofal, bydd gweithwyr proffesiynol yn parhau i weithio gyda'r teulu. Mae hyn yn bwysig oherwydd fe all y teuluoedd hyn fod â mwy o blant, a phan fydd pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn ddigon hen, maen nhw'n aml eisiau cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd genedigol, a byw gyda nhw weithiau.




- Pan fydd pobl sydd â phrofiad o ofal yn dod yn rhieni, byddant yn cael eu helpu a'u cefnogi i ofalu am eu babanod a'u plant. Fydd babanod a phlant byth yn destun camau amddiffyn plant dim ond oherwydd bod gan y fam neu'r tad brofiad o ofal.
- Pan roddir plant a phobl ifanc mewn gofal, bydd ganddynt i gyd eiriolwr hollol annibynnol i'w helpu i gael eu lleisiau wedi'u clywed pan wneir penderfyniadau amdanyn nhw a'u gofal. Gallant aros mewn cysylltiad â'u heiriolwr os mynnant, fel nad oes rhaid iddynt esbonio'r un peth dro ar ôl tro.
- Pan roddir plant a phobl ifanc mewn gofal, gallant aros yn agos at eu teulu a'u cyfeillion yn eu cymunedau eu hunain a'u hysgolion eu hunain. Dim ond os ydynt mewn perygl neu'n wynebu risg y byddant yn cael eu hanfon yn bell i ffwrdd.
- Bydd pawb sy'n gweithio i gefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn deall bod cael eu rhoi mewn gofal yn gallu achosi trawma/argyfwng i blant a phobl ifanc. Mae angen i ni fel cenedl ddeall sut y mae trawma yn effeithio arnom ni fel unigolion ac fel cymuned.
- Fe fydd mwy o ofalwyr maeth, fel y gall plant a phobl ifanc a roddir mewn gofal ddod o hyd i'r bobl iawn i ofalu amdanynt yn syth. Ni fydd rhaid i  blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal symud dro ar ôl tro, o un cartref i'r llall.
- Pan fydd gofalwyr maeth yn cael eu recriwtio, cymerir pob gofal i sicrhau bod ganddynt y gwerthoedd a'r ymddygiad iawn i helpu plant a phobl ifanc i dyfu a ffynnu.
- Caiff gofalwyr maeth eu hyfforddi i ddeall trawma a sut mae'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Byddant yn cael hyfforddiant a chefnogaeth reolaidd.
- Bydd gofalwyr maeth yn cael eu hyfforddi i gefnogi pob plentyn a pherson ifanc. Byddant yn deall anghenion gwahanol plant a phobl ifanc â nodweddion gwarchodedig ac yn gwybod sut i'w cefnogi.
- Bydd yr holl ofalwyr maeth yn cael eu talu'n deg. Ni fydd gofalwyr sy'n berthnasau yn cael llai o dâl, ac ni thelir mwy i ofalwyr os yw'r plentyn neu'r person ifanc sydd dan eu gofal yn 'anodd'. Ni chaiff plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal eu labelu felly.

- Bydd digon o staff â'r gwerthoedd, y sgiliau a'r profiad iawn i gefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Cânt yr holl hyfforddiant a'r gefnogaeth y bydd arnynt ei angen a byddant yn dangos cydymdeimlad a dealltwriaeth bob amser. Bydd plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn gallu cael cymorth pan fydd ei angen arnynt, nid dim ond rhwng 9 a 4 ar ddyddiau'r wythnos.
- Os nad fydd gofal maeth yn iawn i blant neu bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, bydd amrywiaeth o ddewisiadau ar gael iddynt fel y gallant fyw bywyd addas i'w hanghenion.
- Bydd gan blant a phobl ifanc sy'n byw mewn lleoliadau preswyl yr un hawliau â phlant sy'n byw mewn gofal maeth.
- Caiff ceiswyr lloches ifanc sydd wedi cael profiad o ofal eu cefnogi mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw. Bydd ganddyn nhw fwy o fynediad at gyfieithwyr ar y pryd i'w helpu i fynegi eu hanghenion ac i wneud pethau ymarferol fel trefnu apwyntiadau gyda'r gwasanaeth iechyd. Nid yw cyfieithu ar-lein yn gweithio bob amser.
- Bydd gan geiswyr lloches ifanc sydd wedi cael profiad o ofal yr un hawl i addysg â phob plentyn a pherson ifanc arall. Byddant yn cael eu cefnogi i ddysgu Saesneg yn gyflym ac fe fyddan nhw'n gallu penderfynu os taw dysgu wyneb yn wyneb neu ar-lein sy'n gweithio iddyn nhw.
- Byddant yn cael dysgu sgiliau bywyd i'w helpu i ddeall y gymuned maen nhw'n byw ynddi, ac os ydyn nhw'n ddigon hen fe fyddan nhw'n cael mynd ar brofiad gwaith i'w helpu i ddod o hyd i waith pan fydd yn bosib iddynt wneud hynny.
- Bydd ceiswyr lloches ifanc sydd wedi cael profiad o ofal yn cael yr un gefnogaeth â'r hyn a roddir i blant a phobl ifanc eraill sydd wedi cael profiad o ofal. Byddant yn cael eu cefnogi i ddatblygu perthynas barhaol gydag oedolion y gallan nhw ymddiried ynddyn nhw. Byddant yn cael yr un gefnogaeth ble bynnag y gofalir amdanyn nhw yng Nghymru. Byddant yn cael yr un cymorth ariannol â phlant a phobl ifanc eraill sydd wedi cael profiad o ofal.
- Bydd gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cyfathrebu'n dda gyda'i gilydd. Er enghraifft, bydd gweithwyr cymdeithasol yn gwneud yn siŵr bod ysgolion yn gwybod am newidiadau i blentyn neu berson ifanc. Fydd plant a phobl ifanc byth yn gorfod esbonio'r pethau hyn eu hunain, a fydd dim rhaid iddyn nhw barhau i adrodd eu straeon dro ar ôl tro.







- Ni fydd sefydliadau sy'n cynllunio ac yn darparu gofal yn gwneud arian mawr ac yn rhoi'r arian hwnnw i'r bobl sy'n berchen ar y sefydliadau. Bydd yr holl arian sy'n cael ei wario i ddarparu gofal i blant a phobl ifanc yn cael ei ddefnyddio i ddarparu'r gofal hwnnw ac i wneud y gofal yn well. Ni fydd yr un plentyn na pherson ifanc yn cael ei adael heb gartref sy'n iawn i'r unigolyn hwnnw os bydd y cartref gofal yn cau neu'n newid oherwydd hyn, a bydd yr holl arian a arbedir trwy beidio â thalu elw yn aros yn y system i ofalu am blant a phobl ifanc.
- Os bydd plant a phobl ifanc yn lleisio pryderon am y modd y gofalir amdanynt, bydd rhywun yno i wrando arnynt, a chânt eu credu. Fe fydd ymchwiliad iawn i'w pryderon. Ni fydd plant na phobl ifanc byth yn cael eu gadael mewn lleoliadau lle maen nhw wedi dweud eu bod yn teimlo'n anhapusneu'n teimlo nad oes neb yn gofalu amdanynt.
- Bydd plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn eu cymunedau, gan gynnwys cyfleoedd gwaith ieuenctid. Bydd gweithwyr ieuenctid yn cael eu hyfforddi i ddeall yr heriau y gallai pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal eu hwynebu a byddant yn gwybod sut i'w cefnogi.
- Bydd gan ysgolion a cholegau, a phawb sy'n gweithio ynddynt, ddealltwriaeth wirioneddol o blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Byddant yn gwybod y gall fod arnynt angen cefnogaeth ychwanegol weithiau er mwyn dysgu a bod yn hapus, ac fe wnaiff ysgolion a cholegau yn siŵr eu bod yn cael y gefnogaeth honno. Byddant yn deall fod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn aml yn dioddef camwahaniaethu oherwydd stigma, ac fe fyddant yn gweithio'n galed i roi diwedd ar y fath stigma.
- Bydd plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn gwneud cystal yn yr ysgol a'r coleg â phlant a phobl ifanc eraill, gan gael cymwysterau da a mynediad at gyfleoedd.
- Bydd pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yr un mor debygol o fynd i brifysgol ag unrhyw berson ifanc arall.
- Bydd pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yr un mor debygol o gael prentisiaeth a swydd dda ag unrhyw berson ifanc arall.
- Bydd yr holl bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael eu cefnogi gan eu rhieni corfforaethol tan eu bod yn 25 oed. Bydd cefnogaeth ar gael i'r bobl ifanc sydd eisiau hynny ar ôl yr oedran hwnnw.
- Gall yr holl bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal aros gyda'u gofalwyr maeth nes eu bod yn 25 petaent yn dewis, a bydd digon o arian i'r gofalwyr maeth ddal ati i'w cefnogi. Bydd pobl ifanc sy'n byw mewn gofal preswyl pan fyddant yn cyrraedd 18 oed yn cael eu cefnogi i barhau i fyw yn y gymuned gerllaw'r cartref os dymunant, a gallu cadw mewn cysylltiad â'r staff a throi atynt am gefnogaeth.
- Bydd pobl ifanc sy'n gadael gofal yn dechrau dysgu byw'n annibynnol ymhell cyn bod rhaid iddynt wneud hynny. Cânt eu cefnogi i gynllunio ar gyfer y dyfodol maen nhw ei eisiau, a bydd y gefnogaeth honno yno iddynt cyhyd ag y bydd arnynt ei hangen. Ni fydd rhaid iddynt fyw'n annibynnol nes eu bod yn barod.

- Ni fydd yr un person ifanc sydd â phrofiad o ofal byth yn ddigartref wrth adael gofal. Cant eu cefnogi i ddod o hyd, nid dim ond i unrhyw le i fyw, ond cartref cyfforddus lle gallant ddysgu bod yn annibynnol a hapus. Byddant yn cael eu cefnogi i gadw'r cartref hwnnw. Ni fyddant byth yn cael eu troi allan os nad oes ganddynt unman i fynd. Cânt eu cefnogi hyd nes y gallant ymdopi.
- Ni fydd pobl ifanc mewn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal yn fwy tebygol nag unrhyw berson ifanc arall o fynd i drafferth gyda'r gyfraith. Os digwydd iddynt fynd i drafferth gyda'r gyfraith, cânt eu trin yn union yr un fath ag unrhyw berson ifanc arall. Os byddant yn mynd i garchar, byddant yn parhau i gael eu cefnogi er mwyn iddynt, pan fyddant yn gadael, allu dod o hyd i gartref a chael cyfle i ailgychwyn.
- Gall plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal allu cael help i gefnogi eu hiechyd meddwl pryd bynnag y maen nhw ei angen, cyn gynted ag y byddant ei angen.
- Ni fyddant byth yn colli cefnogaeth pan fyddant yn cyrraedd 18 oed ac yn symud i wasanaethau oedolion. Bydd weithwyr proffesiynol yn gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc a'u gofalwyr yn gwybod pa gefnogaeth sydd ar gael a sut i gael gafael arni.
- Ni fydd safon y gofal a'r gefnogaeth a roddir i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal byth yn dibynnu ar lle maen nhw'n byw.
- Bydd pobl sy'n penderfynu pethau am fywydau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn eu hadnabod ac yn eu deall. Byddant yn cwrdd â nhw yn aml, yn gwrando arnynt ac yn gweithredu ar yr hyn maen nhw'n ei ddweud.

## Llywodraeth Cymru a Llysgenhadon Ifanc

Dim ond dechrau'r Weledigaeth yw hon. Mae'n Weledigaeth fyw, sy'n tyfu. Bydd yn tyfu wrth i ni weithio a gwrando ar fwy o blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw ac yn eu cefnogi ar hyn o bryd. Byddwn yn dysgu mwy. Fe fydd mwy o bethau y gallwn eu gwneud yn well, a mwy o syniadau am sut i wneud hynny.

Yr egwyddor y tu ôl i bopeth rydym wedi ei nodi ac y byddwn yn ei nodi yn y Weledigaeth fel mae'n tyfu, yw y dylai plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal gael yr un cyfleoedd â phob plentyn neu berson ifanc arall i wireddu eu hawliau (fel y nodwyd nhw yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac felly yng Nghynllun Gweithredu Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru).

# Yr Ymrwymiad

## Llysgenhadon Ifanc a Llywodraeth Cymru

Rydym wedi dysgu oddi wrth ein gilydd heddiw. Fe wyddom fod pethau da yn cael eu gwneud i ddarparu gwasanaethau da i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ac y gallwn ddysgu o'r rhain ac adeiladu arnynt. Gwyddom fod y newidiadau sydd eu hangen i gyflawni'r Weledigaeth, a'i datblygu, yn enfawr.

Gwyddom nad oes modd newid popeth dros nos, ond fe wyddom hefyd y gall pethau newid yn gyflym pan fydd pawb yn gweithio gyda'i gilydd.

Rydym yn ymddiried yn ein gilydd i chwarae ein rhan i wneud y newidiadau hynny. Isod rydym yn nodi ein hymrwymiadau i'r camau nesaf.

## Llywodraeth Cymru

### Dyma'n hymrwymiadau ni:

1. Cyflwyno'r Weledigaeth fydd un o'n prif flaenoriaethau – un o'r pethau sydd fwyaf pwysig i ni – dros y pedair blynedd nesaf.

2. Byddwn yn gweithio'n agos gyda phawb sydd ar hyn o bryd yn darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, i weithio allan sut y byddwn yn cyflawni'r Weledigaeth.

3. Byddwn yn eu helpu i wneud hynny ac fe wnawn yn siŵr y byddant yn gwneud.

4. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod cyflawni'r Weledigaeth yn cael ei osod wrth galon pob cam gweithredu i gyflawni'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

5. Byddwn yn gwneud yn siŵr y bydd holl Weinidogion Llywodraeth Cymru nad ydynt yma heddiw yn cwrdd â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i'w helpu i ddeall sut y gall eu portffolios gefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'r Weledigaeth.

6. Byddwn yn gosod systemau i wneud yn siŵr ein bod yn dal i fwrw golwg i weld a yw'r Weledigaeth yn cael ei chyflawni, a sut.

7. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod digon o staff, gyda'r gwerthoedd, hyfforddiant a sgiliau iawn, i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Weledigaeth. Byddwn yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu talu a'u cefnogi'n deg fel eu bod yn aros yn eu swyddi.

8. Lle bydd angen, byddwn yn newid y gyfraith, fel y bydd yn rhaid i sefydliadau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ddarparu'r gwasanaethau a'r gefnogaeth iawn. Os na wnânt hyn, byddwn yn helpu plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i ddefnyddio'r gyfraith i wneud yn siŵr y byddant yn gwneud.

9. Byddwn yn gwneud yn siŵr y gwireddir hawliau pob plentyn neu berson ifanc sydd â phrofiad o ofal ac y gweithredir ar yr hawliau hynny lle bynnag maen nhw'n byw yng Nghymru.

10. Byddwn yn gweithio'n agos gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, a gyda'r sefydliadau hynny sy'n eu cefnogi, i roi clust i'w lleisiau ac i sicrhau y cyflawnir y Weledigaeth. Byddwn yn gwrando arnynt ac yn gweithredu ar yr hyn maen nhw'n ei ddweud wrthym. Byddwn yn gweithio gyda nhw i ddatblygu'r Weledigaeth ac i wneud yn siŵr ein bod mewn gwirionedd yn cyflawni diwygiadau radical i wella canlyniadau ac i ddileu pob stigma sy'n gysylltiedig â'n cymuned ofal yng Nghymru.

11. Byddwn yn cwrdd eto â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ymhen 12 mis mewn Uwchgynhadledd ddilynol i adolygu'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Weledigaeth hynod gyffrous hon.

## Llysgenhadon Ifanc

Rydym yn siarad yma dros y gymuned sydd â phrofiad o ofal. Efallai nad ni fel unigolion, ond fe fydd llawer iawn o rai eraill fydd yn ymrwymo gyda ni i fynd ar y daith hon gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael eu gwireddu'n llawn yn ein cenedl, ac y bydd profiad y genhedlaeth nesaf o blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn well na llawer o'n profiadau ni. Rydym yn falch o'r hyn a wnaethom eisoes, ac yn edrych ymlaen at helpu i gyflwyno newidiadau mawr – diwygio radical.

### Dyma'n hymrwymiadau ni:

1. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Weledigaeth, gan weithio gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a'r rhai sy'n gweithio i'w cefnogi.

2. Byddwn yn cwrdd â'r Gweinidogion hynny nad oedd modd iddynt fod yn bresennol yn yr Uwchgynhadledd, i'w helpu nhw i ddatblygu dealltwriaeth o'r modd y gall eu portffolios gyfrannu at gyflawni'r Weledigaeth.

3. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i rannu'r Weledigaeth gyda phawb sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a'u helpu i ddeall y Weledigaeth. Bydd hyn yn eu galluogi i weithio i ddarparu gwasanaethau y gallwn oll fod yn falch ohonynt, gan sicrhau nad yw'r plant a'r bobl ifanc sydd dan eu gofal yn rhan o system sy'n ymddangos fel nad yw'n malio, ac adeiladu gwasanaethau sy'n ein helpu i ddatblygu perthynas gariadus sy'n parhau. Byddwn yn gweithio gyda'n rhieni corfforaethol a'n teidiau a'n neiniau corfforaethol, ein Gweinidogion, ein Llywodraeth.

4. Byddwn yn parhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ledled ein gwlad er mwyn sicrhau bod eu profiadau a'u syniadau yn cael eu bwydo i dwf y Weledigaeth a'r holl waith ddaw yn sgil hynny er mwyn gwneud yn siŵr bod y Weledigaeth yn cael ei chyflwyno ar y cyd gyda phlant a phobl ifanc yn dal wrth galon y daith.

5. Byddwn yn cwrdd â Gweinidogion Cymru ymhen 12 mis mewn Uwchgynhadledd ddilynol i adolygu cynnydd ar gyflawni ein Gweledigaeth.

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar sail ymddiriedaeth a pharch at ein gilydd a ymgorfforir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n nodi egwyddorion allweddol dull gweithredu ar sail hawliau plant fydd yn ganolog i'r daith hynod bwysig a hanesyddol hon. Mae pryder gan rai ohonom y gallem fod yn gwneud y gwaith hwn, ond na fydd y newid yn digwydd er gwaethaf hynny. Ond rydym yn credu ym mwriadau da Llywodraeth Cymru ac yn ymrwymiad ac ymroddiad ein Prif Weinidog, Mark Drakeford. Diolch iddo am ei ymrwymiad cryf i wella ein bywydau a'n dyfodol, a dyfodol y cenedlaethau i ddod.

Oherwydd ei ymrwymiad ef a Gweinidogion eraill Llywodraeth Cymru, rydyn ni'n credu, y tro hwn, y gall diwygio radical gael ei gyflawni mewn gwirionedd.

*Llofnodwyd ar ran Llywodraeth Cymru:*

*Llofnodwyd ar ran y Llysgenhadon Ifanc sydd â phrofiad o ofal:*

Llysgennad Ifanc

Llysgennad Ifanc

Llysgennad Ifanc



Llysgennad Ifanc

# Eitem 3


Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Vaughan Gething

## Dros **Gymru**, dros **Lafur**, drosoch **chi**:

Maniffesto Arweinyddiaeth Llafur Cymru 2024














Wedi'i atgynhyrchu o gyfryngau electronig. Hyrwyddwyd gan D.Costa ar ran Vaughan Gething.
Boh yn Tramshed Tech, Uned D, Stryd Pendyris, Caerdydd CF11 6BH.


Dros Gymru, dros Lafur, drosoch chi.

# RHAGAIR




Rwy'n teimlo balchder ac anrhydedd mawr wrth gyflwyno fy hun i wasanaethu ein gwlad a'n plaid fel arweinydd nesaf Llafur Cymru a Phrif Weinidog Cymru.

Mae'r maniffesto hwn yn nodi gweledigaeth ar gyfer dyfodol tecach i Gymru y gallwn ei adeiladu gyda'n gilydd, yn seiliedig ar ein gwerthoedd cyffredin – dyfodol lle mae gan bawb, ni waeth beth yw eu cefndir na sut maen nhw'n edrych, y cyfle i lwyddo.

Mae gwerthoedd Llafur Cymru yr ydym yn eu rhannu, sef cydraddoldeb a thegwch wedi fy arwain drwy gydol fy mywyd, ac maent wrth galon y polisïau a amlinellir yma.

Wrth ddarllen papurau newydd ar fy rownd bapur yn fy arddegau, cefais fy ysbrydoli gan straeon am wytnwch ac urddas Nelson Mandela, ac yn 17 oed ymunais â'r Blaid Lafur i ymgyrchu dros ein plaid wych – peiriant profedig a llwyddiannus ar gyfer cyfiawnder cymdeithasol.

Ers hynny, rydw i wedi treulio fy mywyd yn brwydro dros degwch. O arwain Myfyrwyr yn Dweud Ie yn ystod ymgyrch datganoli 1997, i ddewis bod yn gyfreithiwr undeb llafur yn cynrychioli pobl sy'n gweithio – menywod a dynion sy'n dioddef camfanteisio, bwlio a gwahaniaethu.

Y rheswm pam yr oeddwn i'n codi yn y bore pan oeddwn i'n gyfreithiwr undeb llafur – i sefyll dros bobl – yw'r un rheswm sy'n fy ngyrru bob dydd yn fy rôl bresennol fel Gweinidog yr Economi. Dyna pam fy mod yn sefyll i fod yn Brif Weinidog hefyd.

Mae hon yn foment bwysig i Gymru – mae argyfwng costau byw y Toriaid wedi gwthio llawer i'r dibyn ac rydym yn wynebu Etholiad Cyffredinol y mae'n rhaid i ni ei ennill. Mae arnom angen arweinydd ar Lafur Cymru a Phrif Weinidog sy'n barod i arwain o'r diwrnod cyntaf yn y swydd.

Fel y Gweinidog Iechyd yn ystod y pandemig, cefais fy mhrofi yn yr amgylchiadau anoddaf. Tra oedd y Toriaid yn cynnal partïon yn Rhif 10, bu Mark Drakeford a minnau'n gweithio'n ddiflino i gadw Cymru'n ddiogel, gan roi pobl yn gyntaf – dim ffafriaeth ar gyfer cyfarpar diogelu personol; dim arian mawr ar gyfer ffrindiau gwleidyddol.

Fe wnaethon ni gydweithio â'n Gwasanaeth

Iechyd Gwladol gwych, llywodraeth leol, busnesau Cymreig ac undebau llafur. Yn y dyddiau tywyllaf hynny, gwnaethom ddal ein gafael ar werthoedd Llafur Cymru.

Gwyddom fod dyddiau anodd o'n blaenau ond rydw i'n obeithiol am y dyfodol y gallwn ei greu gyda'n gilydd.

Fel Cymro du a aned yn Zambia, i fam o Zambia a milfeddyg gwyn o Gymro yn hanu o Aberogwr, rwy'n gwybod sut beth yw profi rhagfarn a bod pobl yn cwestiynu eich safle yn eich cymuned. Dydw i ddim eisiau i neb yng Nghymru deimlo felly. Rydw i eisiau i bobl ifanc ledled Cymru edrych tua'r dyfodol gyda gobaith am y bywydau hapus a chyflawn y gallan nhw eu hadeiladu yma – dyfodol lle rydyn ni'n tyfu'r economi i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus sy'n destun balchder ac sy'n cael eu hariannu'n briodol, lle mae gwaith da ac ystyrlon yn helpu i godi pobl allan o dlodi a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, lle rydyn ni'n gweithio i ledaenu cyfleoedd i bawb ac yn deall mai dim ond drwy weithio gyda'n gilydd y gallwn ni gyflawni i bawb.

Mae'r maniffesto hwn yn amlinellu syniadau a pholisïau arloesol sydd wedi'u gwreiddio yn y gwerthoedd Llafur a rennir gennym yng Nghymru:

- Cenedl iach: Gwasanaeth Iechyd Cymru sy'n ddiogel mewn dwylo cyhoeddus ac sydd bob amser yn cael blaenoriaeth yn y gyllideb. Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar wella iechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal â gofal cymdeithasol sy'n addas ar gyfer ein dyfodol.

- Ffyniant gwyrdd: Creu swyddi gwyrdd wrth galon amddiffyn dyfodol Cymru. Pontio teg sy'n mynd i'r afael â thlodi tra'n amddiffyn ein planed, gyda swyddi da a chyfoeth cymunedol.

- Lle i'w alw'n gartref: Cyflymu adeiladu tai cymdeithasol. Trafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy a fforddiadwy. Gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol, gyda phwerau a chyllid wedi'u datganoli i lywodraeth leol.

- Dyfodol uchelgeisiol: Cyfleoedd addysgol i bobl o bob oed a chyfnod mewn bywyd. Defnyddio dylanwad swyddfa'r Prif Weinidog i sicrhau rhagoriaeth yn ein hysgolion a'n colegau gan weithio gydag athrawon a staff cymorth ysgolion.

- Cymru gryfach: Mwy o bwerau i Gymru a ledled Cymru. Cenedl uchelgeisiol a blaengar yn cymryd ei lle ar lwyfan y byd gyda dyfodol ffyniannus i'r Gymraeg.

Gyda'i gilydd, rwy'n credu bod y blaenoriaethau a'r polisïau hyn yn ateb yr heriau y dylai aelodau Llafur Cymru eu mynnu gan eu darpar arweinydd newydd.

Maent wedi'u gwreiddio yn ein gwerthoedd a'n hanes – a gyda'ch cefnogaeth chi, gallwn sicrhau Cymru fwy disglair, gwell a thecach i'r dyfodol; dyfodol wedi'i greu gan bob un ohonom.



# CENEDL IACH:

***Gwasanaeth Iechyd Cymru sy'n ddiogel mewn dwylo cyhoeddus ac sydd bob amser yn cael blaenoriaeth yn y gyllideb. Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar wella iechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal â gofal cymdeithasol sy'n addas ar gyfer ein dyfodol.***

Mae iechyd da – meddyliol a chorfforol, drwy gydol pob cam o fywyd – yn hanfodol ar gyfer bywyd da, i bobl, i gymunedau ac i'n gwlad. Roedd Aneurin Bevan yn deall hyn wrth sefydlu'r GIG, ac roedd yn amlwg i mi bob dydd fel Gweinidog Iechyd, wrth weithio ochr yn ochr â Mark i arwain Cymru drwy'r pandemig – her anoddaf fy mywyd proffesiynol.

Aethom i'r afael â'r her honno drwy gadw'n driw i'r gwerthoedd Llafur Cymru a rannwn – dim contractau i ffrindiau, dim ffafriaeth i ffrindiau, dim partïon yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru. Byddai'r gwerthoedd hynny'n sail i'n hagwedd tuag at bolisi iechyd a gofal cymdeithasol os caf fy ethol yn Brif Weinidog, gydag egwyddorion craidd wedi'u gwreiddio yng Nghyfamod GIG Cymru. Byddem yn sicrhau bod GIG Cymru yn ddiogel mewn dwylo cyhoeddus, gyda gwariant y pen ar iechyd a gofal cymdeithasol byth yn disgyn yn is na'r hyn a geir yn Lloegr, yn barod i gwrdd â heriau iechyd corfforol a meddyliol fel blaenoriaethau cyfartal. Byddem hefyd yn symud Cymru tuag at y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol y mae ei wir angen arnom.

**Y GIG**

Byddem yn cyflwyno **Cyfamod GIG Gymru newydd,** yn seiliedig ar egwyddorion Bevan, ac uchelgais newydd ar gyfer ein gwasanaeth iechyd. Bydd GIG Cymru bob amser yn ddiogel mewn dwylo cyhoeddus; dan fy arweiniad i, ni fyddai ei wasanaethau byth yn cael eu gwerthu. Byddai'n cael ei redeg yn unol â blaenoriaethau Cymru, a gwerthoedd Llafur Cymru. Byddai'n GIG gwirioneddol unigryw i Gymru sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i gleifion. Byddai bob amser yn cael blaenoriaeth yn y gyllideb, gyda gwariant y pen ar iechyd a gofal cymdeithasol byth yn disgyn yn is na'r hyn a geir yn Lloegr. Byddem yn cyhoeddi cytundeb partneriaeth newydd gyda'r gwasanaeth, cleifion, undebau a llywodraeth leol i ateb yr heriau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, gyda'n gilydd.

Byddai GIG Cymru yn blaenoriaethu **canlyniadau i gleifion,** ledled y wlad a thrwy bob rhan o'r llwybr gofal iechyd. Gan ddysgu o arferion gorau rhyngwladol, byddem yn defnyddio ein hadnoddau'n ddoeth i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gleifion, lleihau amseroedd aros, helpu pobl i reoli cyflyrau cronig, a blaenoriaethu iechyd meddwl ochr yn ochr ag iechyd corfforol.

Er mwyn gwireddu'r uchelgais honno, mae angen i ni gefnogi a hyrwyddo **arloesedd ym maes gofal iechyd**. Byddai ein llywodraeth yn parhau i weithio gyda phrifysgolion, y trydydd sector a phartneriaid masnachol i gefnogi'r datblygiadau arloesol sydd eu hangen i wella ein cyfraddau goroesi canser. Cyn gynted ag y bydd cyllid yn caniatáu, byddem yn buddsoddi yn y tymor canolig mewn canolfan patholeg ddigidol arloesol newydd i gyflymu diagnosis.

Byddwn yn parhau i **fuddsoddi mewn technoleg** i symleiddio prosesau, osgoi dyblygu a sicrhau bod gwybodaeth hanfodol ar gael i gefnogi gofal cleifion lle bynnag y caiff ei ddarparu.

Byddem hefyd yn ymestyn monitro digidol ar gyfer cyflyrau iechyd penodol gan gynnwys COPD, methiant y galon a monitro glwcos.

Rwyf wedi ymrwymo i weithio gyda staff y GIG a chleifion i sicrhau bod Ap y GIG ar gael yn eang, yn hygyrch ac yn ymateb i anghenion cleifion ac i gyflwyno rhagnodi digidol i bob meddyg teulu a fferyllfa.

Rhaid inni fynd i'r afael ag **anghydraddoldebau iechyd** er mwyn sicrhau bod y GIG yn wasanaeth sy'n gweithio i bawb. Byddai ein Llywodraeth Lafur yng Nghymru yn sicrhau bod cydraddoldebau'n cael eu hystyried yn rheolaidd drwy'r gwasanaethau iechyd – rhywbeth yr oeddwn wedi ymrwymo iddo fel Gweinidog Iechyd. Fe wnaethom sicrhau bod PrEP ar gael yn eang yn GIG Cymru drwy wasanaethau iechyd rhywiol yn 2017 – dros dair blynedd cyn iddo fod ar gael yn rheolaidd yn Lloegr.

Byddai mynd ymhellach ar anghydraddoldebau iechyd yn golygu mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol sy'n golygu bod rhywun sy'n cael ei eni yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig yn gallu disgwyl marw saith mlynedd yn gynharach na rhywun o ardal fwy cefnog. Mae hefyd yn **golygu system iechyd sy'n sensitif i rywedd ac sy'n**

**ddiwylliannol gymwys** sy'n cydnabod anghenion a phrofiadau iechyd unigryw menywod, a phobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Byddem yn cymryd camau pendant ar anghydraddoldebau iechyd hiliol, gan ddechrau drwy archwilio canlyniadau mewn gwasanaethau mamolaeth ac iechyd meddwl, yn ogystal ag adolygu prosesau disgyblu ar gyfer staff a gwella'r gwaith o gasglu data. Yn rhy aml, nid yw lleisiau menywod yn cael eu cymryd ddigon o ddifrif ym maes gofal iechyd a byddai ein llywodraeth yn eiriol yn angerddol dros ddatrys y mater hwn, gan gynnwys drwy gyflwyno **Cynllun Iechyd Menywod.**

Byddem yn parhau â'n rhaglen o ddiwygio deintyddol, gan ymestyn y cymysgedd sgiliau mewn deintyddiaeth drwy gynyddu nifer y therapyddion deintyddol a sicrhau bod y contract deintyddol yn cyflawni ar gyfer cleifion a'r proffesiwn deintyddol. Byddem yn sicrhau cefnogaeth gydol oes ar gyfer iechyd deintyddol, gan adeiladu ar gynlluniau o ysgolion cynradd (Cynllun Gwên) yr holl ffordd drwodd i gartrefi gofal (Gwên am Byth/Smile for Life).

### Gofal Cymdeithasol

Byddai ein llywodraeth yn gwneud rhagor o gynnydd tuag at **Wasanaeth Gofal Cenedlaethol** addas i'r diben sy'n diwallu anghenion y rheini sy'n derbyn gofal, ac yn cefnogi gweithwyr gofal.

Rydyn ni'n gwybod pa mor bwysig yw hi i bobl deimlo bod ganddyn nhw reolaeth dros y gofal maen nhw'n ei gael a'r dewisiadau maen nhw'n eu gwneud iddyn nhw eu hunain a'u hanwyliaid, ac felly bydden ni'n edrych ar ehangu modelau **gofal sy'n cael eu harwain gan y gymuned**, er enghraifft mentrau gofal cymdeithasol cydweithredol.

Gwyddom hefyd, y tu ôl i'n system gofal ffurfiol a phroffesiynol yng Nghymru, bod rhwydwaith o ffrindiau, teuluoedd ac eraill sy'n cefnogi anwyliaid. Byddem yn sicrhau ein bod yn **gwerthfawrogi ac yn cefnogi gofalwyr di-dâl yn briodol**, gyda chanllawiau i weithwyr proffesiynol y GIG eu nodi a'u cyfeirio at rwydweithiau cymorth.

Ochr yn ochr â hyn, byddai ein llywodraeth yn gwneud defnydd mwy – a gwell – o ofal sy'n defnyddio technoleg i gefnogi pobl i fyw'n dda ac yn ddiogel gartref am fwy o amser. Mae hyn yn cynnwys ymestyn y defnydd o fonitro digidol ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal, galluogi ymyrraeth gynnar a lleihau derbyniadau diangen i'r ysbyty.

### Iechyd Meddwl

Byddem yn parhau i **flaenoriaethu buddsoddiad mewn iechyd meddwl**, gan adeiladu ar y camau sylweddol rydym wedi'u cymryd i sicrhau cydraddoldeb rhwng ein dulliau gweithredu o ran iechyd meddwl ac iechyd corfforol.

Byddai ein llywodraeth yn cyflawni ein haddewidion presennol ac yn mynd ymhellach, gan adeiladu ar ein gwasanaeth 24/7 '111, dewis 2 ar gyfer iechyd meddwl' a'n dull ysgol gyfan o gefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

Gan gydnabod pwysigrwydd y 1,000 diwrnod cyntaf ym mywyd plentyn, byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau ar gyfer ein plant a'n babanod ieuengaf un. Byddwn

yn dyblu ymdrechion i sicrhau bod yr holl wasanaethau iechyd meddwl yn gallu ymateb i anghenion pobl niwrowahanol.

# FFYNIANT GWYRDD:

***Creu swyddi gwyrdd wrth galon amddiffyn dyfodol Cymru. Pontio teg sy'n mynd i'r afael â thlodi tra'n amddiffyn ein planed, gyda swyddi da a chyfoeth cymunedol.***

Mae'r heriau economaidd sy'n wynebu Cymru wedi newid yn sylfaenol ers inni ymgyrchu dros ddatganoli yn 1997. Bryd hynny, ein problem ganolog oedd diweithdra cronig, ystyfnig o uchel ar ôl i'r pyllau glo gael eu cau'n ddi-hid gan y Torïaid. Ers hynny, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi llwyddo i leihau diweithdra. Heddiw, rydym yn wynebu her wahanol.

Ar ôl 14 mlynedd o economeg "trickle-down" aflwyddiannus y Torïaid, rhaid inni ganolbwyntio'n ddygn ar leihau tlodi drwy wella ansawdd swyddi. Ar yr un pryd, rhaid inni fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd – her dorfol fwyaf ein cenhedlaeth.

Gallwn wneud y ddau beth, gyda'n gilydd.

Fel Prif Weinidog, sicrhau cyfiawnder hinsawdd a chyfiawnder cymdeithasol fyddai ein dwy genhadaeth economaidd.

Byddem yn harneisio manteision Cymru mewn diwydiannau fel ynni glân a gweithgynhyrchu uwch. Byddai ein Llywodraeth Lafur yng Nghymru yn helpu i lunio'r math o economi yr ydym am ei gweld. Byddai Cymru'n ymuno â'r don o wledydd sy'n cydnabod bod yn rhaid i lywodraethau chwarae mwy o ran weithredol mewn marchnadoedd preifat i sicrhau canlyniadau gwell i ddinasyddion a chryfhau diwydiannau sy'n darparu swyddi da.

Unwaith, arweiniodd Cymru y byd i'r Chwyldro Diwydiannol; nawr mae'n rhaid i ni arwain y ffordd yn y Chwyldro Diwydiannol Gwyrdd. Byddem yn defnyddio dulliau datganoli i sicrhau ei fod yn ein helpu i greu dyfodol cryfach, tecach a mwy cynaliadwy. Mae'r cenedlaethau nesaf yn dibynnu arnom i gyflawni. Gyda'n gilydd, fe wnawn ni.

**Polisi diwydiannol ar gyfer twf gwyrdd**
Fel Prif Weinidog byddwn yn parhau i frwydro dros sicrhau bod ein sector dur hanfodol yn cael y dyfodol cadarn y mae'n ei haeddu. Byddwn yn gwneud beth bynnag sydd ei angen i sefyll dros ein gweithwyr dur – ac ni fydd ein Llywodraeth **byth yn cytuno i drosglwyddo swyddi gweithwyr dur ac allyriadau Cymru dramor.**

Byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i adeiladu ar ein Cenadaethau Economaidd ac yn defnyddio dull **polisi diwydiannol gwyrdd gweithredol** sydd â holl bwysau'r llywodraeth y tu ôl iddo. Byddem yn gosod tasg i Ddiwydiant Sero Net Cymru ganfod lle mae gan Gymru fantais gymharol a thargedu cymorth i sicrhau ein bod ar flaen y gad yn niwydiannau cystadleuol y dyfodol – gan greu swyddi lleol da mewn sectorau sy'n amrywio o led-ddargludyddion i ynni'r llanw. Wrth wneud hynny, gallwn achub y blaen ar ddiwydiannau'r dyfodol, er gwaethaf llywodraeth Dorïaidd yn San Steffan a ddelir yn ôl gan ganoliaeth gronig y DU ac ymrwymiad ideolegol i economeg 'laissez-faire' sydd wedi methu. Ac os bydd y Blaid Lafur yn ennill yr Etholiad Cyffredinol nesaf, byddem yn defnyddio sedd Llywodraeth Cymru ar Gyngor Strategaeth Ddiwydiannol newydd y DU i sicrhau bod cyllid yn cael ei drosglwyddo i'r blaenoriaethau diwydiannol ac economaidd a osodwn ar gyfer Cymru.

Mae sicrhau swyddi da yn golygu gwneud **diwygiadau beiddgar a systemig i'r fframweithiau cynllunio a buddsoddi** i ddatgloi twf gwyrdd. Byddai ein llywodraeth yn adolygu ein system gynllunio i roi mwy o gyflymder a sicrwydd wrth wneud penderfyniadau ar gyfer prosiectau mawr sy'n dod â swyddi da i Gymru – yn enwedig ar ynni adnewyddadwy.

Byddem hefyd yn adolygu ein llwybrau mewnfuddsoddi gyda'r nod o symleiddio'r broses a'i gwneud yn haws fyth buddsoddi a dod â swyddi da i Gymru. Byddai'r adolygiad hwn yn edrych ar y strategaethau arfer gorau a fabwysiadwyd mewn mannau eraill yn y byd i sicrhau bod Cymru yn lle deniadol i gwmnïau leoli cyflogaeth o ansawdd uchel.

Er ein bod yn denu mwy o fuddsoddiad gwyrdd, byddem hefyd yn cyfyngu ar fuddsoddiad cyhoeddus sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd drwy gefnogi cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol i symud oddi wrth danwydd ffosil.

Mae sector preifat bywiog yn hanfodol i gyflawni fy nghenhadaeth economaidd ddeuol, a byddai ein llywodraeth yn **cefnogi busnesau a gweithwyr Cymru i addasu i'r newid i sero net, a ffynnu yn hynny o beth,** gan sicrhau mai gweithwyr yw'r flaenoriaeth yn ystod y broses hon.

Byddem yn creu Sefydliad Gweithgynhyrchu Cenedlaethol i Gymru ac yn **darparu Canolfannau Twf Glân newydd** – clystyrau o fusnesau ecogyfeillgar sy'n pweru twf lleol a swyddi gwell – gan adeiladu ar y rheini rwyf wedi'u cefnogi fel Gweinidog yr Economi. Byddem hefyd yn ymestyn Benthyciadau Busnes Gwyrdd, gan helpu busnesau i ddatgarboneiddio a gostwng biliau ynni am byth.

Wrth geisio sicrhau a chreu swyddi yn niwydiannau gwyrdd y dyfodol, ni fyddem byth yn esgeuluso ein **heconomi bob dydd** hanfodol sy'n darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau bob dydd yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt. Mae'n cefnogi cynifer o swyddi a bywoliaethau ac

mae'n gwneud cyfraniad enfawr i'n heconomi gyffredinol, ac mae ganddo hefyd y potensial i wella ansawdd bywyd pawb. Byddem yn canolbwyntio ar wella ansawdd swyddi yn yr economi bob dydd, gan gynnwys mewn sectorau fel gofal, bwyd a gweithgynhyrchu. Byddem yn meithrin ein heconomi bob dydd i gefnogi busnesau lleol a meithrin cyfoeth cymunedol cryfach. Byddem hefyd yn gwreiddio egwyddorion yr economi sylfaenol ar draws cyrff cyhoeddus, gan gysylltu pob buddsoddiad cyhoeddus yn benodol â chanlyniadau gwell i economïau lleol.

Byddai ein llywodraeth yn harneisio ein hasedau naturiol fel ynni gwynt a llanw, gan ddiogelu natur ar yr un pryd. Byddem yn sicrhau bod yr **ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yma o fudd i bobl yng Nghymru**.

Byddem yn pwyso am roi terfyn ar ddiffyg gweithredu gan Lywodraeth y DU ar gryfhau'r grid yng Nghymru er mwyn galluogi pontio tuag at sero net.

**Gwell swyddi a safonau byw uwch**

Byddem yn creu **Cronfa Gwaith Teg newydd – 'Gwaith Teg'** – a fyddai'n agored i geisiadau gan brosiectau sy'n ceisio cefnogi arferion gweithio teg. Gallai enghreifftiau gynnwys cyfleoedd datblygu gwell mewn gwaith cyflog isel; helpu i dalu Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr; gwella safonau rheoli; cynyddu aelodaeth undebau llafur ymysg pobl ifanc a'r sector preifat; annog mwy o undebau llafur i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a chyflawni polisïau; a mynd i'r afael â gwahaniaethu yn y gweithle, gan gynnwys drwy fynd i'r afael â'r bylchau cyflog o ran rhywedd ac ethnigrwydd. Byddai'r arian yn dod o gyllid datblygu a ddychwelwyd ar ôl yr UE dan Lywodraeth Lafur y DU, a byddai'r gronfa'n cael ei datblygu ar y cyd â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

Byddem yn grymuso gweithwyr a'u hundebau drwy fentrau mor amrywiol â darparu mwy o gefnogaeth i weithio o bell ac yn hyblyg – yn enwedig lle mae'n grymuso pobl anabl a rhieni – a chyflwyno cyflog byw i weithwyr amaethyddol. Byddai hyn yn cyd-fynd ag adolygiad o weithrediad y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth i sicrhau ei fod yn wirioneddol annibynnol ac yn ennyn hyder undebau a chyflogwyr. Byddem yn **gweithredu un o argymhellion allweddol adroddiad diweddar TUC Cymru ar Ddatganoli a Gwaith yng Nghymru drwy greu** carreg filltir gwaith teg ochr yn ochr ag undebau llafur a busnesau i sicrhau ein bod yn mesur ac yn ceisio gwella arferion gweithio teg.

Byddem unwaith eto'n anelu at **ddyblu nifer y busnesau sy'n eiddo i weithwyr yng Nghymru**, ar ôl fy ymrwymiad fel Gweinidog dros yr Economi i wneud yr union beth hyn ymddangos y bydd yn cael ei gyflawni'n gynnar, a **byddem yn cyfeirio mwy o wariant caffael cyhoeddus at fentrau cydweithredol a mentrau cymdeithasol.**

Byddem yn gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Lafur newydd yn y DU i **gyflymu'r gwaith o gyflwyno canolfannau bancio** ac yn annog Cash Access UK i flaenoriaethu ardaloedd gwledig a rhai sydd heb eu datblygu'n ddigonol fel bod y canolfannau hyn yn cyrraedd yr ardaloedd pwysicaf yn gynt. Byddem hefyd yn ystyried ehangu gwaith Banc Datblygu Cymru i ddarparu cyllid busnes yn haws i bobl sy'n dymuno sefydlu neu ehangu busnesau y tu allan i'n trefi a'n dinasoedd mawr.

**Y Gymru wledig a naturiol**
Mae gan Gymru rai o'r tirweddau harddaf yn y byd, o arfordiroedd i fynyddoedd, ac mae pobl ledled y wlad yn eu mwynhau ac yn gofalu amdanynt.

Mae gennym gyfle i sicrhau bod ffermio sy'n ystyriol o natur yn dod yn norm. Rhaid datblygu **Bil Natur Bositif** newydd ochr yn ochr â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n cysylltu teuluoedd yn well â bwyd fforddiadwy a maethlon. Byddem yn gosod targedau statudol cryf ar gyfer diogelu ac adfer natur ac yn cynnwys taliadau i ffermwyr yn gyfnewid am nwyddau cyhoeddus. Erbyn 2030, byddai 30% o'n tir a'n môr yn cael eu gwarchod a byddem yn arwain drwy esiampl wrth reoli ac ehangu coetiroedd yn gynaliadwy.

Byddai ein Llywodraeth Lafur yng Nghymru yn cryfhau **camau gorfodi i warchod ein hamgylchedd**, gan ddechrau drwy greu corff llywodraethu amgylcheddol sy'n gweithredu'n llawn, gan lenwi'r bwlch a adawyd ar ôl Brexit. Mae llygredd ein hafonydd a'n cyrsiau dŵr wedi bod yn un o sgandalau mawr y 14 mlynedd diwethaf o reolaeth y Torïaid, a byddem yn cyflwyno cosbau llymach i'r rheini sy'n torri rheolau amgylcheddol. Byddem hefyd yn buddsoddi i ddiogelu cymunedau rhag llifogydd, erydu arfordirol ac effeithiau eraill yr argyfwng hinsawdd. Byddem yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn gweithio gyda ni – yn enwedig os oes gennym weinyddiaeth Lafur adeiladol yn San Steffan – i gymryd camau gweithredu hirddisgwyliedig ar domennydd glo anniogel, sydd ond yn debygol o gael eu gwneud yn fwy peryglus gan stormydd mwy mynych a dwys.

Byddem yn gwneud Cymru'n arweinydd ar **safonau lles anifeiliaid yn y DU**, drwy roi pwerau gorfodi ychwanegol i swyddogion yr RSPCA a chyflwyno gwaharddiad llwyr ar roi anifeiliaid anwes fel gwobrau, fel y mae llawer o awdurdodau lleol Llafur Cymru eisoes wedi'i wneud.

# LLE I'W ALW'N GARTREF:

***Cyflymu adeiladu tai cymdeithasol. Trafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy a fforddiadwy. Gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol, gyda phwerau a chyllid wedi'u datganoli i lywodraeth leol.***

Mae cartref yn fwy na'r lle rydyn ni'n byw, mae'n gynefin – lle rydyn ni'n perthyn, yn gysylltiedig â'r bobl a'r lleoedd o'n cwmpas mewn cymuned gref. Cartref yw canolbwynt ein bywydau o ddydd i ddydd: ein cartrefi, y stryd fawr, rhwydweithiau trafnidiaeth lleol, a gwasanaethau llywodraeth leol.

Gallwn adfer yr ymdeimlad hwnnw o berthyn, cysylltedd a chymuned.

Dyna pam, os caf fy ethol yn Brif Weinidog, y byddem yn cyflymu'r gwaith o adeiladu tai cymdeithasol. Bydd adeiladu cartrefi gwyrdd ledled Cymru yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng tai a chreu swyddi o ansawdd da.

Mae sut mae'r cartrefi hyn yn cael eu cysylltu â'i gilydd yn bwysig hefyd. Mae gwella'r cysylltiadau o fewn ein cymunedau a rhyngddynt yn dod â phobl at ei gilydd ac yn sicrhau bod twf a chyfleoedd yn cyrraedd bob cymuned.

Mae angen inni hefyd sicrhau bod mwy o'r siwrneiau hynny'n cael eu gwneud ar drafnidiaeth gyhoeddus – sy'n bosibl gyda gwasanaethau dibynadwy, integredig a fforddiadwy.

Rhaid i ni hefyd rymuso cymunedau drwy ddatganoli grym o fewn Cymru. Byddem hefyd yn sefydlu cytundeb gydag arweinwyr lleol ar ddatblygu economaidd i yrru ein heconomi yn ei blaen a chreu swyddi newydd.

**Tai**

Byddai **adeiladu rhagor o dai cymdeithasol** yn flaenoriaeth i mi fel Prif Weinidog. Dyma un o'r ffyrdd mwyaf pwerus o liniaru tlodi a helpu pobl i greu dyfodol gwell a mwy diogel. Byddem yn defnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol presennol i hybu arloesedd yn y genhedlaeth nesaf hon o dai cymdeithasol. Mae'r dulliau adeiladu diweddaraf a thai modiwlar yn cynnig ffyrdd cynaliadwy a chost-effeithiol o ddarparu cartrefi newydd. Cartrefi newydd a fydd yn helpu i ateb her yr argyfwng hinsawdd a biliau ynni is. Byddem yn blaenoriaethu cadwyni cyflenwi yng Nghymru ac yn gweithio gyda'r sector tai i sicrhau bod ein gweithlu yn meddu ar y sgiliau i lenwi'r cyfleoedd hyn, gan gynnwys drwy brentisiaethau. Byddai ein llywodraeth hefyd yn cynyddu nifer y cartrefi hygyrch sydd ar gael i bobl anabl.

I **fynd i'r afael â'r argyfwng tai**, mae angen i ni leihau'r ôl-groniadau cynllunio. Mae adrannau cynllunio awdurdodau lleol wedi dioddef o 14 mlynedd o galedi. Gyda'n Llywodraeth ni, byddai Tasglu Cartrefi Fforddiadwy yn cyflymu datblygiadau mawr.

Byddem yn blaenoriaethu datblygiadau newydd sy'n agos at ganol trefi i gefnogi'r stryd fawr leol ac i leihau'r ddibyniaeth ar deithio mewn ceir. Byddem yn sicrhau bod gan bob tŷ newydd gysylltiadau sy'n gallu trosglwyddo data ar gyfradd gigadid er mwyn sicrhau bod tai newydd Cymru yn addas at y dyfodol.

Er mwyn lleihau allyriadau carbon a biliau ynni cartrefi, mae angen inni gychwyn ar raglen uchelgeisiol o **ôl-osod y stoc dai bresennol**. Byddai ein Llywodraeth ni yn gweithio gyda'r sector a chyllid preifat i gyflwyno'r rhaglen hon ar y cyflymder a'r raddfa angenrheidiol. Byddai'r ymrwymiad i ragor o brentisiaethau yn helpu i sicrhau bod gennym lif o bobl fedrus i wneud y gwaith fel rhan o chwyldro swyddi gwyrdd ehangach. Byddem yn treialu creu rhwydweithiau ôl-osod lleol gan ddod â darparwyr bach ac unig fasnachwyr at ei gilydd mewn menter gydweithredol, gyda mynediad at gontractau ôl-osod yn y sector cyhoeddus – gan roi cyfleoedd i gontractwyr dyfu. Mae gan Lafur Cymru hanes balch o **wella diogelwch a hawliau tenantiaid** drwy Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru), a oedd yn symleiddio'r broses o rentu cartref ac yn creu system newydd ar gyfer tenantiaethau. Byddem hefyd yn ceisio cryfhau'r hawliau hynny er mwyn i rentwyr allu gwneud eu tŷ yn gartref – gan gynnwys drwy roi diwedd ar gymalau 'dim anifeiliaid anwes' afresymol. Byddem yn archwilio tystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol ar reoli rhenti, gan sicrhau bod rhenti'n deg i denantiaid, mewn ffordd nad yw'n lleihau nifer y cartrefi sydd ar gael i'w rhentu.

Byddai ein Llywodraeth Lafur ni yng Nghymru yn gweithio i **ailwampio'r system lesddaliadol yn radical** er mwyn i lesddeiliaid presennol allu prynu gyda'i gilydd yn haws a symud i gyfunddaliad os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. Rwyf hefyd yn awyddus i symleiddio'r broses i lesddeiliaid sefydlu'r hawl i hunanreoli neu i ddal rheolwyr ystadau i gyfrif yn well. Byddem yn parhau i drin **mynd i'r afael â digartrefedd** fel mater cenedlaethol, gan gydweithio ag awdurdodau lleol ac elusennau i fabwysiadu dull gweithredu strategol i sicrhau bod arbenigedd yn cael ei gronni ar draws rhanbarthau, gan rannu arferion gorau o ran darparu llety dros dro y mae gwir ei angen. Gallwn ni helpu i gael pobl oddi ar y strydoedd a'u helpu i greu dyfodol mwy cynaliadwy a diogel.

Byddem yn parhau i **gefnogi deiliaid morgeisi** y mae argyfwng morgeisi'r Torïaid wedi effeithio arnynt drwy'r Cynllun Cymorth i Aros Cymru.

**Trafnidiaeth a Theithio**
Byddai Llywodraeth Lafur Cymru yn pasio **deddfwriaeth i reoleiddio'r rhwydwaith bysiau** cyn diwedd tymor y Senedd hon. Byddai cyflwyno masnachfreinio yn sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion cymunedau a phobl – yn enwedig y rhai sy'n dibynnu ar fysiau, fel rhai pobl hŷn a phobl anabl.

Byddai masnachfreinio hefyd yn caniatáu ar gyfer **trafnidiaeth gyhoeddus wedi'i hintegreiddio'n well**, gydag amserlenni bysiau'n cysylltu'n well â'i gilydd ac amserlenni trenau, gyda mwy o docynnau unffordd ar gael ar gyfer trenau a bysiau.

Byddem yn **edrych ar gynlluniau lleihau prisiau tocynnau** fel y bydd cyllid yn caniatáu, gan gynnwys teithio am ddim ar fysiau. Byddai Llywodraeth Lafur Cymru yn adolygu'r broses o wneud cais am gardiau bws i bobl anabl, er mwyn sicrhau bod pawb sydd â hawl i gael cerdyn bws yn gallu defnyddio'r system ymgeisio.

Byddem yn parhau i weithio gyda'r sector i gynyddu'r defnydd o fysiau trydan a chefnogi treialon bysiau hydrogen.

Ochr yn ochr â mwy o gerbydau trydan, mae'n hanfodol bod y seilwaith angenrheidiol i **gefnogi gwefru cerbydau trydan** yn barod. Byddem yn gweithio gyda phartneriaid cyflenwi i greu rhwydwaith gwefru cenedlaethol dibynadwy ac effeithlon, yn unol â'r strategaeth bresennol.

Mae Maes Awyr Caerdydd yn adnodd economaidd a thrafnidiaeth hanfodol i Dde Cymru. Byddem yn parhau i gefnogi arloesedd a thwf. Byddem yn gweithio gyda'r diwydiant awyrennau i ddefnyddio'r maes awyr fel catalydd ar gyfer teithiau awyr carbon is.

**Teithio llesol** yw'r math rhataf a gwyrddaf o drafnidiaeth, ond mae pobl yn dewis cerdded neu feicio ar gyfer eu taith i'r gwaith os ydynt yn teimlo'n ddiogel. Rydym wedi ymrwymo i wella diogelwch y seilwaith teithio llesol.

Byddem yn ehangu'r corff o gyngor y mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu arno i lunio polisi trafnidiaeth a grymuso dinasyddion i chwarae mwy o ran yn y gwaith o gynllunio polisïau. Byddem hefyd yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol i'r seilwaith i leddfu'r pwysau ar goridor yr M4 a chryfhau cysylltiadau trafnidiaeth ar draws De-ddwyrain Cymru drwy gyflawni Comisiwn Burns. Mae hyn yn cynnwys cydlynu amserlenni bysiau a threnau, gyda thocynnau integredig.

Byddem yn cynyddu presenoldeb Trafnidiaeth Cymru yng Ngogledd Cymru, gan wella cysylltiadau trafnidiaeth, gan gynnwys pwyso ar Lywodraeth y DU i ddarparu cynllun credadwy sy'n cael ei ariannu'n briodol ar gyfer uwchraddio rheilffyrdd er mwyn i ni allu darparu

gwasanaethau metro dibynadwy ar lwybrau allweddol. Rydym yn parhau wedi ymrwymo i ddatblygu Metro Bae Abertawe a De-orllewin Cymru, i wella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn y rhanbarth.

### Mwy o bwerau i lywodraeth leol ledled Cymru

Byddai Llywodraeth Lafur Cymru yn y dyfodol yn datblygu **pecyn o bwerau i lywodraeth leol yn rhanbarthau Cymru** drwy Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Ar gyfer Gogledd Cymru, byddai'r pecyn hwn o bwerau'n cael ei ddatblygu gan Weinidog Gogledd Cymru, gan adrodd i'r Prif Weinidog.

Ni ellir datganoli pwerau heb adnoddau. Byddem yn datblygu rhestr o flaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar y cyd ar draws pob rhanbarth ac y gellir eu defnyddio i ddylanwadu ar ysgogwyr allweddol swyddi da a safonau byw uwch – fel buddsoddiad preifat, buddsoddiad Llywodraeth y DU, a chyllid ymchwil a datblygu.

Nod y mesurau hyn yw datganoli pwerau o Lywodraeth Cymru i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, nid symud pwerau sydd gan gynghorwyr lleol ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru. Byddem hefyd yn datblygu rôl gryfach i bob cynghorydd o fewn Cyd-bwyllgorau Corfforedig sy'n golygu y **bydd gan gynghorwyr lleol a gaiff eu hethol yn ddemocrataidd fwy o bwerau o ganlyniad i'r newidiadau hyn, nid llai.**

Mae cynghorau wedi bod ar flaen y gad wrth ddelio â realiti llym cyni'r Ceidwadwyr. Byddai ein llywodraeth yn gweithio mewn partneriaeth gyfartal â chynghorwyr Llafur i ymgymryd â'r heriau sy'n ein hwynebu.

### Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon

Mae twf ein sector creadigol wedi bod yn un o lwyddiannau mawr datganoli yng Nghymru. Mae diwydiannau creadigol yn gwneud cyfraniad cynyddol i'n heconomi, gan ddarparu cyflogaeth mewn swyddi da. Fodd bynnag, mae'r diwydiant yn adrodd am brinder sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth a gollwyd. Byddem yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector i ddarparu hyfforddiant sgiliau drwy sefydlu **Academi Greadigol Cymru.**

Gan weithio gyda'n sefydliadau diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon cenedlaethol, byddem yn gwella effeithlonrwydd ynni eu hystadau, gan helpu i gyrraedd ein targedau sero net a lleihau costau rhedeg. Byddem yn rhoi mwy o flaenoriaeth i iechyd a lles yn y sectorau celfyddydau, diwylliant, treftadaeth a chwaraeon drwy gyfrwng **Bond Lles Cymru.**

Byddem yn sicrhau bod mwy o warchodaeth i adeiladau o arwyddocâd lleol neu ddiwylliannol drwy adolygu fframweithiau sy'n ymwneud â chadw adeiladau hanesyddol.

Byddem yn galw ar Lywodraeth y DU i ddiwygio'r drefn digwyddiadau rhestredig i gynnwys digwyddiadau o arwyddocâd cenedlaethol yng Nghymru, fel y Chwe Gwlad, ar deledu am ddim ar yr awyr ac i Byddem hefyd yn hyrwyddo chwaraeon ar lawr gwlad er budd iechyd meddwl ac iechyd corfforol.

Byddem yn cefnogi parhad a thwf y **Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth yng Nghymru**. Byddem hefyd yn gweithio i ddiogelu lleoliadau cerddoriaeth fyw o bob maint, gan gynnwys hyrwyddo modelau perchnogaeth gydweithredol.

Ochr yn ochr â hyn, byddem yn ymchwilio i’r posibilrwydd o gyflwyno pasbort diwylliannol ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc o bob cefndir yn gallu manteisio ar gyfleoedd celfyddydol, diwylliannol a chreadigol.

Byddem yn parhau â’r gwaith o ddarparu Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol, ac yn cwblhau gwaith ar Theatr Clwyd, Amgueddfa Gogledd Cymru a’r Amgueddfa Bêl-droed. Byddem hefyd yn gweithio gyda’r sector twristiaeth i hyrwyddo Cymru fel gwlad o antur a thwristiaeth gynaliadwy.

Byddai ein Llywodraeth Lafur yng Nghymru hefyd yn eiriolwr cryf dros gais Dinas Diwylliant yng Nghymru.

# DYFODOL UCHELGEISIOL:

***Cyfleoedd addysgol i bobl o bob oed a chyfnod mewn bywyd. Defnyddio dylanwad swyddfa'r Prif Weinidog i sicrhau rhagoriaeth yn ein hysgolion a'n colegau gan weithio gydag athrawon a staff cymorth ysgolion.***

Dylai dysgwyr o bob oed gael dyfodol uchelgeisiol yng Nghymru. Byddai Llywodraeth Lafur Cymru yn arwain cenhadaeth genedlaethol newydd i sicrhau bod gan bawb y sgiliau bywyd hanfodol sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i ni weithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth – llywodraeth, y sector addysg, undebau llafur, a busnesau o wahanol ddiwydiannau – i wella addysg a llwybrau gyrfa yng Nghymru yn sylweddol. Er gwaethaf y pwysau maen nhw'n ei wynebu, mae ymroddiad ein hathrawon a staff cymorth ysgolion yn ysbrydoledig. Mae staff mewn ysgolion a cholegau yn darparu mwy a mwy o gymorth emosiynol ac iechyd meddwl i ddysgwyr y mae eu teuluoedd yn cael trafferthion ariannol, ac mewn ffyrdd eraill. Byddwn bob amser yno ar gyfer staff ymroddedig ein hysgolion.

Yn y byd gwaith sy'n newid yn gyflym heddiw, nid yw dysgu a datblygu sgiliau yn dod i ben wrth gatiau'r ysgol. Byddem yn cydnabod yr angen am gymorth wedi'i deilwra i bobl o wahanol oedrannau ac ar wahanol gamau yn eu bywydau drwy ddysgu ôl-orfodol, cymunedol ac oedolion. Rydym am i bobl gael cyfleoedd hyblyg ac amserol i ailsgilio ar unrhyw adeg o'u bywydau. Mae cyflawni hyn yn gofyn am ewyllys wleidyddol ac ymdrech cymdeithas gyfan. Mae hwn yn adnodd hanfodol i sicrhau bod gan bobl urddas a chydnabyddiaeth ariannol yn eu bywyd gwaith, gan roi Cymru yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac addasu i ddeallusrwydd artiffisial ac awtomeiddio.

### Gofal plant

Yr wyf yn benderfynol y byddwn, gyda'n gilydd, yn rhoi **cychwyn cadarn i bob plentyn yng Nghymru,** waeth beth fo'i gefndir, gan hefyd alluogi rhieni i weithio neu ddysgu fel y mynnant. Ni ddylai cost gofal plant fod yn dal pobl yn ôl. Byddai ein Llywodraeth Lafur yng Nghymru yn adnewyddu ein ffocws ar y 1000 diwrnod cyntaf ym mywyd plentyn. Rydym wedi ymrwymo i ehangu ein cynnig wrth i adnoddau ddod ar gael.

### Addysg

Rydym am weld ysgolion Cymru yn cyflawni **rhagoriaeth mewn addysg** i'n plant a'n pobl ifanc yn gyson. Mae plant ysgol yng Nghymru yn dal i deimlo effaith pandemig Covid ar ddysgu ac yn gymdeithasol. Rydym wedi ymrwymo i gau'r bwlch cyrhaeddiad a mynd i'r afael â'r cynnydd mewn absenoliaeth ac ymddygiad aflonyddgar mewn ysgolion drwy ganolbwyntio ar gefnogaeth i deuluoedd.  Byddem yn gweithio gydag awdurdodau lleol, ysgolion a rhieni i hyrwyddo mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ac i gefnogi plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mewn economi sy'n newid yn gyflym, mae'n hanfodol bod ein **system addysg yn paratoi pobl ifanc ar gyfer byd gwaith.** Mae ymgysylltu cyn-16 â chyflogwyr yn yr ysgol, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi disgyblion i fapio llwybrau gyrfa yn unol â'u huchelgais a'u sgiliau, yn hanfodol. Byddai ein llywodraeth hefyd yn ehangu Hive y Cymoedd Technoleg i fwy o ysgolion yn y Cymoedd. Ar yr un pryd, mae angen i ni sicrhau bod pobl ifanc yn gwybod beth yw eu hawliau pan fyddant yn mynd i'r gweithle. Byddem yn hyrwyddo rhaglen Undebau TUC Cymru a'r Byd Gwaith ac yn diwygio'r Fanyleb Safonau Prentisiaeth ar gyfer Cymru i gynnwys modiwl byr ar-lein ar hawliau gweithio ar gyfer pob prentisiaeth.

Mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn parhau i sicrhau bod **cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan allweddol o'n haddysg,** er mwyn i'n plant dyfu gyda phersbectif ar wahanol lwybrau bywyd. Byddem yn cefnogi mesurau i sicrhau bod disgyblion yn cael profiad a dealltwriaeth eang o gymunedau amrywiol drwy gydol eu hamser yn yr ysgol, a hefyd yn sicrhau nad yw homoffobia, rhywiaeth, hiliaeth ac ableddiaeth yn cael eu croesawu yn ein system addysg.

### Sgiliau

Byddai ein Llywodraeth Lafur yng Nghymru yn gwneud **ail-fuddsoddi mewn rhagor o brentisiaethau** yn flaenoriaeth mewn cronfeydd cyfnewid yr UE, a byddai Llywodraeth Lafur nesaf y DU yn eu dychwelyd i Gymru – ymrwymiad a sicrhawyd gennyf i. Ar yr un pryd, byddem yn cynyddu amrywiaeth y diwydiannau sy'n darparu prentisiaethau hyfforddi yn y gwaith i ateb y galw am swyddi medrus mewn sectorau sy'n dod i'r amlwg. Byddem yn adolygu darpariaeth Sgiliau Hanfodol Cymru mewn prentisiaethau dysgu yn y gwaith ac yn targedu prentisiaethau uwch a lefel gradd yn y meysydd hynny sydd â'r galw mwyaf am sgiliau.

Byddem yn canolbwyntio'n bennaf ar gryfhau cynnig addysg a hyfforddiant galwedigaethol a thechnegol Cymru, gan ddatblygu strategaeth ar gyfer y llywodraeth, cyflogwyr ac undebau llafur. Byddem yn parhau i fuddsoddi y Gronfa Ddysgu Undeb Cymru lwyddianus.

Byddai ein llywodraeth yn **cefnogi colegau addysg bellach i hyfforddi pobl yn y sgiliau gwyrdd sydd eu hangen arnom ar gyfer y dyfodol,** yn dilyn ein Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net sy'n cwmpasu peirianneg adeiladu, gweithgynhyrchu a llawer mwy. Byddem hefyd eisiau sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael eu cefnogi wrth iddynt symud i fyd gwaith a'n bod yn strategol yn ein hagwedd at faterion traws-sector. Mae hyn yn golygu annog gwell cydgysylltu rhwng ein gwahanol sectorau addysg yn ogystal ag strwythuro'r Comisiwn ar Addysg Drydyddol ac Ymchwil i ganolbwyntio ar themâu trawsbynciol fel dysgu gydol oes a sgiliau gwyrdd.

Byddem yn cydweithio â phartneriaid i godi ymwybyddiaeth a chynyddu mynediad at gynnig llawn partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned a hyrwyddo gwerth amlieithrwydd. Byddem hefyd yn ehangu Contract Economaidd Llywodraeth Cymru gyda busnesau i gynnwys cyfnewidfa addysg a chyflogaeth.

Fel rhan o'n penderfyniad y dylai pawb deimlo bod ganddynt y posibilrwydd o ddyfodol cyffrous yma, byddem yn gwneud mwy i **gadw a datblygu talent a sgiliau amrywiol ar draws y genedl.** Byddem yn hybu cyfleoedd dysgu yn y gwaith ac yn hyrwyddo llwybrau gyrfa gwyrdd i bobl o bob oed, gan weithio gydag awdurdodau lleol, busnesau, a sefydliadau addysg bellach ac uwch i ddatblygu canolfannau sgiliau rhanbarthol, sectoraidd ar gyfer rhagoriaeth. Byddwn yn blaenoriaethu **dysgu hyblyg, am ddim i weithwyr ar gyflogau isel**, gan brif-ffrydio ein dull cyfrifon dysgu personol. Mae'n hanfodol adeiladu tegwch yn niwydiannau'r dyfodol, a byddem yn cefnogi mynediad cyfartal at swyddi a sgiliau gwyrdd fel nad yw'r anghydraddoldebau presennol yn cael eu hailadrodd neu eu gwaethygu wrth i ni bontio i ddiwydiannau newydd.

# CYMRU GRYFACH:

***Mwy o bwerau i Gymru a ledled Cymru. Cenedl uchelgeisiol a blaengar yn cymryd ei lle ar lwyfan y byd gyda dyfodol ffyniannus i'r Gymraeg.***

Gyda'n gilydd, gallwn greu dyfodol cryfach a thecach i Gymru lle mae gan bawb gyfle i lwyddo. Mae 25 mlynedd cyntaf datganoli yn brawf o'r hyn y gallwn ei gyflawni gyda'n gilydd, i bob un ohonom. Rwy'n falch o fod wedi arwain Myfyrwyr yn Dweud Ie yn 1997, ochr yn ochr â chynifer o bobl yn ein mudiad, ac i fod wedi ymgyrchu dros fwy o ddatganoli yn 2011. Nawr mae'n bryd sicrhau mwy o bwerau i'r Senedd a chryfhau'r setliad datganoli drwy rannu pwerau ledled Cymru. Gallwn ledaenu pŵer allan o Gaerdydd a'i roi yn nwylo pobl fel bod gan bob rhanbarth yn ein gwlad lais, a'u bod yn teimlo cysylltiad cryf â'n Senedd.

Fel Cymro a aned yn Zambia, rwy'n gwybod sut beth yw profi rhagfarn a chael pobl yn cwestiynu eich safle yn y gymuned. Dydw i ddim eisiau i unrhyw berson ifanc yng Nghymru deimlo felly. Mae Cymru'n gryfach drwy fanteisio ar dalentau ein holl ddinasyddion, a dyna pam mae'r maniffesto hwn yn cynnwys ymrwymiadau cryf i gydraddoldeb. Byddem yn parhau â gwaith da Llywodraeth Cymru yn y maes hwn ac yn cryfhau'r darpariaethau ar gydraddoldeb i fenywod, pobl anabl, pobl LHDTC+, a lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, nid yw ein hymrwymiad i gydraddoldeb wedi'i gynnwys yn yr adran hon yn unig, ond yn y maniffesto hwn drwyddo draw.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i ddyfodol ffyniannus i'r Gymraeg yn ein cymunedau gyda'n nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Fel cynifer ohonom ni ar draws y wlad, rwy'n dysgu Cymraeg fy hun. Byddai cael dysgwr fel Prif Weinidog yn arwydd cadarnhaol i bobl ledled Cymru sy'n dysgu'r iaith ac yn annog pawb i ddefnyddio'r Gymraeg sydd gennych.

**Cydraddoldeb**
Byddai ein llywodraeth ni wedi ymrwymo i **greu Cymru wrth-hiliol**. Byddem yn cefnogi'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol hyd at ddiwedd y cyfnod presennol o ddwy flynedd ym mis Mehefin 2024, ac yna'n adeiladu ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu dros y ddwy flynedd nesaf gyda chyfres newydd o gamau gweithredu uchelgeisiol. Byddai Gwaith Teg – ein Cronfa Gwaith Teg newydd – yn cefnogi economi decach, gan gynnwys camau i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil ac anabledd a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a'r bwlch cyflog ethnigrwydd.

Byddem helpu i sicrhau mai Cymru yw'r **wlad fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop** ac yn parhau i gefnogi a gwireddu camau gweithredu Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru. Byddem yn parhau i gefnogi'r cwricwlwm ACRh newydd ac yn cynhyrchu mwy o ddeunyddiau cefnogol i athrawon ac ysgolion er mwyn ei roi ar waith. Byddem hefyd yn parhau i gefnogi hawl pobl draws i arddel rhywedd o'u dewis.

Byddem yn parhau i bwyso am Gymru sy'n **ymdrechu i sicrhau hawliau a chydraddoldeb i bob person anabl** drwy barhau i asesu dichonoldeb gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD) yn y gyfraith.

Byddem yn arwain llywodraeth ffeministaidd sy'n **hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol** yng Nghymru sy'n parhau i gefnogi canfyddiadau'r Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru, gan gryfhau a diweddaru'r darpariaethau lle bo angen. Byddai mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol i Lywodraeth Cymru.

Mae Llafur Cymru wedi cymryd camau breision ymlaen o ran cydraddoldeb rhywiol, ac mae'r rhan fwyaf o Aelodau'r Senedd bellach yn fenywod. Fodd bynnag, nid da lle gellir gwell. Felly, byddai ein llywodraeth bob amser yn parhau i gael **cabinet sydd â chydbwysedd rhwng y rhywiau wrth i ni geisio** datblygu arweinwyr y dyfodol.

Byddwn yn edrych ar ddulliau newydd o greu gweithleoedd mwy diogel. Byddwn yn codi'r safonau arweinyddiaeth sydd eu hangen i atal camdriniaeth ac yn darparu atebolrwydd cadarn a chyson yn y gwaith. Lle bo angen, byddwn yn ailedrych ar y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gryfhau'r blaenoriaethau hyn.

Byddem yn ymgynghori ar gynlluniau i **godi safonau mewn cyrff cyhoeddus**, gyda'r opsiwn o osod safon gryfach ar aflonyddu rhywiol a mathau eraill o wahaniaethu ar gyfer cyrff cyhoeddus ar sail statudol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld gormod o achosion o ymddygiad amhriodol yn ein cyrff cyhoeddus.

Byddem yn parhau i fynd i'r afael â thlodi plant a datblygu gwaith ar **System Budd-daliadau Cymru,** gan symleiddio'r budd-daliadau mae Llywodraeth Cymru yn eu cynnig ar hyn o bryd – gan gynyddu ymwybyddiaeth a hwylustod ymysg defnyddwyr posibl. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddem yn edrych ar sut mae dod â gwasanaethau at ei gilydd i **greu pàs digidol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus**. Byddai hyn yn ei gwneud yn haws i bobl gael gafael ar y cymorth

maen nhw'n dibynnu arno a'r cyfleoedd maen nhw'n eu haeddu. Mae hwyluso mynediad i bawb yn helpu cyfiawnder cymdeithasol – sy'n gallu meithrin mwy o ymddiriedaeth. Byddem yn sicrhau bod opsiynau analog yn cael eu cadw ar gyfer y rhai sy'n cael trafferth defnyddio gwasanaethau digidol.

Byddai ein llywodraeth hefyd yn adolygu trothwyon cymhwysedd ar gyfer budd-daliadau yng Nghymru, er mwyn sicrhau nad yw teuluoedd agored i niwed sy'n dibynnu ar ddarpariaethau fel Prydau Ysgol am Ddim yn canfod eu hunain heb ein cymorth a heb unrhyw gynnydd yn eu safonau byw. Bydd hyn yn rhan o'n gwaith i barhau i fynd i'r afael â materion fel llwgu yn ystod y gwyliau.

Byddai ein llywodraeth yn falch o **gadw statws Cenedl Noddfa Cymru**, gan groesawu ffoaduriaid sy'n ffoi rhag rhyfel ac erledigaeth, a byddem yn gwrthwynebu naratifau a lleisiau sy'n hyrwyddo gwahaniaethu a chasineb.

## Cyfansoddiad a Democratiaeth

Fel rhywun a fu'n ymgyrchu dros ddatganoli yn refferenda 1997 a 2011, ochr yn ochr â chynifer o bobl eraill ar draws ein mudiad, byddwn yn parhau i eiriol dros bwerau cryfach i'r Senedd. Byddem yn cefnogi datganoli Ystad y Goron i Gymru, er mwyn caniatáu i ni ddefnyddio ein hadnoddau naturiol i ddod â swyddi gwyrdd o ansawdd da i Gymru.

Byddem hefyd yn cefnogi datganoli cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth prawf fel yr argymhellwyd yn adroddiad Gordon Brown, **a datganoli pwerau cyfiawnder a phlismona** yn unol â pholisi Llafur Cymru. Yn ogystal â hyn, byddem yn cefnogi **datganoli pwerau benthyca darbodus,** a fyddai'n lleihau cost prosiectau adeiladu seilwaith yng Nghymru, gan ein galluogi ni i gyflawni mwy.

Byddai ein cefnogaeth i ddatganoli hefyd yn ymestyn y tu hwnt i ragor o bwerau i'r Senedd. Ochr yn ochr â'n cynigion datganoli rhanbarthol a amlinellwyd yn gynharach, byddai ein llywodraeth ni yn rhoi **mwy o bŵer i Weinidog Gogledd Cymru**, gan gynnwys swyddfa yng Ngogledd Cymru a thîm o swyddogion wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru o adrannau allweddol Llywodraeth Cymru.

Byddai ein llywodraeth ni'n canolbwyntio'n ddygn ar y materion bara menyn sy'n bwysig i bobl, a byddem yn sefydlu **Swyddfa'r Prif Weinidog newydd i ganolbwyntio ar gyflawni.** Byddai'r swyddfa hon yn sicrhau bod blaenoriaethau craidd y llywodraeth yn mynd rhagddynt. Byddai ganddi hefyd gylch gwaith i ganolbwyntio ar flaenoriaethau trawslywodraethol fel gwaith teg, newid hinsawdd ac iechyd meddwl, gan helpu Gweinidogion yn y meysydd hyn i gyflawni eu hagendâu.

**Mae HS2 yn amlwg yn brosiect i Loegr yn unig** sydd wedi'i ddosbarthu fel prosiect Lloegr-a-Chymru i'n hamddifadu o'r cyllid mae gennym ni hawl iddo. Rwy'n cefnogi creu ysgrifenyddiaeth annibynnol i sicrhau na all Llywodraeth y DU barhau i gam-drin y gwledydd datganoledig.

**Yr Iaith Gymraeg a'i diwylliant**

Fel llawer ohonoch, rwy'n dysgu Cymraeg. Mae'r Gymraeg yn rhan hanfodol o'n hunaniaeth genedlaethol ac rwyf wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn **cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050**. Byddem yn hyrwyddo cyfleoedd dysgu gydol oes a dysgu seiliedig ar waith gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Byddem yn cyflwyno Rhaglen arloesol Arfor i ragor o ardaloedd Awdurdodau Lleol, i gefnogi ac i dyfu'r Gymraeg ochr yn ochr ag economïau lleol. Byddai ein llywodraeth ni hefyd yn ehangu Prosiect Perthyn i ddarparu cefnogaeth arbenigol i ragor o gymunedau sydd eisiau datblygu mentrau cydweithredol Cymraeg.

Byddai ein Llywodraeth Lafur ni yng Nghymru yn hyrwyddo **asedau diwylliannol gwych Cymru,** gan gynnwys gwthio am statws gwarchodedig UNESCO i'r Eisteddfodau drwy gofrestr treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol UNESCO. Byddem yn defnyddio holl ysgogiadau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo safon uchel a lefel gynaliadwy o ddarlledu a chyfryngau Cymraeg. Byddem yn cefnogi addasu cylch gwaith Ofcom i fynnu sylwebaeth yn yr iaith Gymraeg ar gyfer digwyddiadau penodol.

Byddai Llafur Cymru yn pwyso am gefnogaeth wedi'i theilwra i annog aelodau Llafur sy'n siarad Cymraeg i sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiadau.

Dros **Gymru**,
dros **Lafur**,
drosoch **chi**.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS / MS
Cadeirydd, y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog /
Chair, Committee for the Scrutiny of the First Minister
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1SN

15 Chwefror 2024

Annwyl David,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 17 Ionawr 2024 yn gofyn am ragor o wybodaeth yn dilyn sesiwn y Pwyllgor Craffu ar 8 Rhagfyr 2023.

Cadw'n gynnes a chael bwyta'r gaeaf hwn

> **Nododd y Pwyllgor y rhesymau a roddwyd mewn perthynas â'r llithriadau yn y rhaglen hon, a byddai'n croesawu unrhyw wybodaeth bellach a allai fod ar gael am y llithriadau hyn. At hynny, byddai'r Pwyllgor yn croesawu sicrwydd bod y rhaglen yn cynnal gwaith gwahanol i gynlluniau Llywodraeth y DU.**

Y Rhaglen Cartrefi Clyd yw'r unig raglen ôl-osod cartrefi wedi'i hariannu'n llawn gan y llywodraeth yn y DU, sydd wedi darparu cymorth di-dor i gartrefi incwm isel ers dros ddegawd.

O ystyried cymhlethdod y gwasanaethau sy'n cael eu caffael i gyflawni'r cynllun hwn, roedd angen mwy o gamau sicrwydd yn y broses werthuso, gan arwain at fethu â chadw at yr amserlen gaffael. Mae'r risg fach a grëir gan yr oedi hwn yn cael ei gwrthbwyso'n llwyr gan y risg is o her gyfreithiol, a allai fod wedi difetha'r rhaglen gyfan. Cyn y Nadolig, cytunodd y Gweinidog Newid Hinsawdd i symud y broses gaffael i'r cam nesaf a chyhoeddwyd y llythyrau'n nodi'r canlyniadau i'r holl gynigwyr ar 2 Ionawr. Mae'r cyfnod segur o 10 diwrnod a'r terfyn amser statudol o 30 diwrnod ar gyfer dechrau achos i herio'r broses gaffael bellach wedi mynd heibio heb i unrhyw her gael ei chyflwyno.

Mae swyddogion yn awr yn cwblhau telerau'r contract ar gyfer y gwasanaethau cymhleth hyn ac mae'r gweithgarwch i roi'r cynllun ar waith wedi dechrau ochr yn ochr â hynny. Rydym ar y trywydd iawn i'w roi ar waith ar 1 Ebrill, fel y nodwyd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ar sawl achlysur.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae swyddogion yn gweithio gyda'n contractwyr, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i sicrhau bod y cynllun newydd, a arweinir gan y galw, yn ategu cynlluniau effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd eraill sydd ar waith ledled Prydain Fawr. Bydd gan ein gwasanaethau cynghori rôl bwysig o ran deall amgylchiadau eu cleient a'u cefnogi i gael mynediad at y cynllun mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion. Mae ein gwasanaethau cymorth yn y cartref yn rhoi'r hyder i gartrefi mewn tlodi tanwydd wneud y newidiadau i ddyfodol glanach, sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon.

**Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am unrhyw drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ag awdurdodau lleol o ran y rhaglen EcoFlex a chadarnhad ynghylch a fyddai awdurdodau lleol yn gallu elwa o'r rhaglen pe baent yn mabwysiadu dull rhanbarthol, fel sydd wedi digwydd yn Ne Cymru.**

Cyfarfu swyddogion â chynrychiolwyr awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn fwyaf diweddar ar 25 Ionawr i drafod y cynnydd sy'n cael ei wneud ar LA Flex y Cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO). Rydym wedi bod yn gweithio gyda'n gilydd i dyfu cynnig LA Flex y Cynllun ECO ac roedd y cyfarfod hwn yn gyfle i'r awdurdodau roi adborth ar gynnydd a materion, rhannu arferion da, a nodi'r meysydd lle mae angen targedu cymorth pellach.

Bellach, mae gan 19 awdurdod lleol gynlluniau gweithredol ar lefelau aeddfedrwydd amrywiol, tra bydd gan yr awdurdodau sy'n weddill gynlluniau ar waith cyn bo hir. Mae llawer o enghreifftiau o awdurdodau lleol yn cydweithio. Er enghraifft, mae awdurdodau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi gweithio gyda'i gilydd, gan wireddu manteision dull rhanbarthol o weithio. Mae tystiolaeth hefyd o drosglwyddo gwybodaeth rhwng awdurdodau.

Fodd bynnag, gallai dull rhanbarthol, mewn rhai achosion, lesteirio awdurdodau lleol sy'n gallu symud yn gyflymach ar eu pen eu hunain ac felly mae'n iawn i ystyried pob achos yn unigol. Ein blaenoriaeth yw sicrhau darpariaeth lawn ledled Cymru cyn gynted â phosibl, i sbarduno cymaint o gymorth â phosibl a sicrhau bod cymorth ar gael i'r rhai sydd ei angen fwyaf.

**Byddai'r Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlenni a ragwelir ar gyfer adolygiad Ofgem o daliadau sefydlog, yn enwedig mewn perthynas â Gogledd Cymru, sydd â thaliadau sefydlog uwch na'r cyfartaledd.**

Rydym wedi cyhoeddi ein hymateb i adolygiad Ofgem o daliadau sefydlog https://www.llyw.cymru/galwad-ofgem-am-fewnbwn-ar-daliadau-sefydlog-ymateb-llywodraeth-cymru. Rydym yn deall bod Ofgem wedi cael nifer mawr iawn o ymatebion ac y bydd dadansoddi'r rhain yn cymryd cryn dipyn o amser. Rydym wedi gofyn am drafodaethau pellach gydag Ofgem, ynghylch eu hamcangyfrif o effaith unrhyw newidiadau posibl i'r polisi, a awgrymodd y byddai newid costau o daliadau sefydlog i gostau cyfeintiol yn niweidiol i gwsmeriaid Cymru. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i bwyso am ddatrysiad sy'n deg i gartrefi incwm isel a defnydd isel, ac nad yw'n parhau i roi cartrefi dan anfantais yn y Gogledd.

Y Cytundeb Cydweithio

**Dyma ofyn ichi ddarparu manylion y symiau cyllid a ddyrannwyd i bob un o'r 13 maes, yng nghyllidebau 2022-23, 2023-24 a 2024-25, yn ogystal â rhoi gwybod ym mha Brif Grwpiau Gwariant, a'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb, y mae'r cyllid hwn wedi'i gynnwys. Gwnaethoch gyfeirio sawl gwaith at gyllid yn cael ei**

**neilltuo a'i fonitro ar gyfer tanwariant posibl, felly mae'n debyg y gellir ei fesur fel hyn.**

Gweler y tabl yn Atodiad A sy'n nodi manylion diweddaraf y dyraniadau ar gyfer y tri maes ar ddeg gyda chyllid ynghlwm wrthynt fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio. Mae hefyd yn cynnwys y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb cysylltiedig y mae'r dyraniadau hyn yn eistedd ynddynt.

Caiff gwariant yn erbyn y dyraniadau hyn ei fonitro'n rheolaidd a lle ceir cytundeb ar y cyd rhwng yr Aelodau Dynodedig a Gweinidogion Llywodraeth Cymru, gellir defnyddio unrhyw danwariant ar gyfer meysydd sydd o fewn y Cytundeb Cydweithio, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r tri maes ar ddeg y dyrannwyd cyllid iddynt, neu ar gyfer blaenoriaethau eraill fel costau byw neu wasanaethau cyhoeddus. Cytunir ar yr holl newidiadau rhwng y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a'r Aelod Dynodedig Arweiniol fel aelodau o Bwyllgor Cyllid y Cytundeb Cydweithio.

Fel y nodir yn nogfen y Gyllideb Ddrafft, bydd rhai agweddau ar y Cytundeb Cydweithio yn parhau i gael eu cyflawni y tu hwnt i ddiwedd blwyddyn ariannol 2024-25. Mewn achosion o'r fath, a phan fo cyllid wedi'i ailbroffilio i sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn yn cael eu cyflawni, byddwn yn gweithio ar y cyd â'r Aelod Dynodedig Arweiniol i sefydlu mecanwaith i sicrhau bod trefniadau llywodraethiant priodol ar gyfer yr ymrwymiad ariannol parhaus hwn. Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys y dyraniadau hynny.

Dylid nodi'r pwyntiau canlynol wrth ystyried y tabl yn atodiad A:

1. Mae tabl dyraniadau'r Cytundeb Cydweithio yn ddogfen weithredol sy'n cael ei diweddaru yn ôl yr angen. Mae dyraniadau'n cynrychioli cynlluniau ariannol sydd wedyn yn cael eu gweithredu a'u diweddaru drwy gydol y flwyddyn ariannol.
2. Mae'r tabl yn cynnwys manylion ynghylch dyraniadau'r Cytundeb Cydweithio ac yn nodi ym mha Linellau Gwariant yn y Gyllideb y mae'r rhain yn eistedd ynddynt. Ar y sail hon, nid ffigurau alldro gwariant terfynol yw'r rhain, ac nid ydynt yn cynrychioli cyfanswm y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb. Fe'u darperir i'r Pwyllgor ar sail eithriadol, at ddibenion yr ymateb hwn.
3. Mae ffigurau 2022-2023 yn dangos dyraniadau wedi'u cynllunio ar 6 Mawrth 2023.
4. Mae dyraniadau 2023-2024 a 2024-2025 yn adlewyrchu'r cynlluniau wedi'u diweddaru ar gyfer 2023-2024 a gyhoeddwyd ar 17 Hydref 2023 a'r cynlluniau ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2024-2025 a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr2023.

Yn gywir,

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

**Atodiad A: Y Cytundeb Cydweithio – Dyraniadau Cyllideb wedi'u Cynllunio**

| | | | Refeniw £m | | | | Cyfalaf £m | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Eitem yr ymrwymwyd iddi** | **Prif Grŵp Gwariant (MEG)** | **Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)** | **22-23** | **23-24** | **24-25** | **Cyfanswm** | **22-23** | **23-24** | **24-25** | **Cyfanswm** |
| Prydau Ysgol am Ddim | Y Gymraeg ac Addysg | 5219 | 18.10 | 58.50 | 93.50 | 170.10 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Gofal Plant (Dechrau'n Deg) | Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 1087 | 9.40 | 35.16 | 37.28 | 81.84 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Cwmni Adeiladu Cenedlaethol | Newid Hinsawdd | 6410 | 0.10 | 1.33 | 1.40 | 2.83 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Diogelwch Adeiladau | Newid Hinsawdd | 2555 | 0.00 | 3.90 | 4.50 | 8.40 | 55.00 | 90.00 | 105.00 | 250.00 |
| Cwmni Ynni Sero Net (Ynni Cymru) | Newid Hinsawdd | 3770 | 0.05 | 2.47 | 3.48 | 6.00 | 0.00 | 2.00 | 20.00 | 22.00 |
| Buddsoddiad cyfalaf a chydnerthedd cenedlaethol o ran llifogydd | Newid Hinsawdd | 2230 | 8.00 | 16.00 | 24.00 | 48.00 | 34.00 | 34.00 | 34.00 | 102.00 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus - astudiaethau dichonoldeb | Newid Hinsawdd | 2030 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.90 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Yr Economi - Darlledu a chymorth ariannol i'r cyfryngau; Strategaeth Ddiwylliant | Yr Economi | | 5.00 | 4.52 | 9.25 | 18.77 | 0.89 | 2.92 | 4.55 | 8.36 |
| *sy'n cynnwys: Darlledu* | | 3762 | *1.00* | *0.16* | *1.00* | *2.16* | *0.00* | *0.00* | *0.00* | *0.00* |
| *Cymorth ariannol i'r cyfryngau* | | 3762 | *0.25* | *0.55* | *0.75* | *1.55* | *0.00* | *0.00* | *0.00* | *0.00* |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Diwylliant* | | 6170 2700 | *2.65* | *3.81* | *7.50* | *13.96* | *0.89* | *2.92* | *4.55* | *8.36* |
| Arfor | Yr Economi | 3751 | 0.00 | 4.00 | 5.00 | 9.00 | 0.00 | 0.00 | 2.00 | 2.00 |
| Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Y Gymraeg ac Addysg | 5164 6020 | 1.50 | 4.50 | 4.50 | 10.50 | | 0.00 | | 0.00 |
| Iechyd Meddwl | Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 230 | 0.35 | 1.70 | 3.00 | 5.05 | 0.46 | 2.00 | 4.00 | 6.46 |

1. Prydau ysgol am ddim i bawb 22-23 a 23-24 - mae cyllid cyfalaf hefyd wedi'i ddyrannu fel rhan o gyllideb y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
2. Mae'r pennawd Diwylliant yn cynnwys dyraniadau cyllid sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ymrwymiadau'r Cytundeb Cydweithio, lle mae angen cytundeb ar y cyd rhwng y Dirprwy Weinidog a'r Aelod Dynodedig.